# *Arweinyddiaeth yn y Sector Uwchradd Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog: Yr heriau arbennig sy'n wynebu penaethiaid a darpar-benaethiaid mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

ARWEL GEORGE
*Cyn-bennaeth Ysgol Gyfun Penweddig, cyn-ysgrifennydd a swyddog Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)*

## CRYNODEB

Mae'r erthygl hon yn cynnig amlinelliad o dwf ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ers agor yr ysgol gyntaf yn 1956. Ochr yn ochr â'r twf hwnnw sefydlwyd cymdeithas broffesiynol i gynnig modd i'r ysgolion gadw mewn cyswllt â'i gilydd. Yn y dyddiau cynnar ei theitl oedd Cymdeithas Prifathrawon Dros Addysg Gymraeg (CPDAG) ond yn ystod y degawdau diweddar esblygodd i fod yn Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG). Dylid nodi mai nid corff undebol yw CYDAG ond, yn hytrach, cymdeithas broffesiynol sy'n cefnogi a hybu buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Erbyn hyn, sefydlwyd cangen gynradd o CYDAG hefyd ond o bersbectif CYDAG uwchradd yr ysgrifennwyd yr erthygl hon. Mae'r erthygl yn nodi dwy brif agwedd o'r rôl y chwaraeodd y gymdeithas. Ar un llaw, darparodd y gymdeithas gynhaliaeth broffesiynol i athrawon, rheolwyr canol ac uwch rheolwyr trwy gynnal nifer sylweddol o gyfarfodydd proffesiynol un-dydd. Roedd y rhaglenni yn cynnig sesiynau i athrawon i rannu arfer dda o fethodoleg llawr dosbarth o fewn y pynciau craidd ac all-graidd. Cynigiodd sesiynau eraill themâu oedd yn berthnasol i reolwyr canol ac uwch megis deall a defnyddio data, dulliau hunan-arfarnu ac asesu ar gyfer dysgu. Yn ddiweddar trefnwyd bod cynrychiolwyr o nifer fechan o ysgolion CYDAG yn ymweld ag ysgolion a gydnabuwyd i fod yn rhai llwyddiannus iawn gan

*https://doi.org/10.16922/wje.20.2.8*

gynnwys ysgolion yng Nghymru ac yn Lloegr. Yn dilyn yr ymweliadau strwythuredig hyn roedd yr ysgolion yn arwain sesiynau rhannu a thrafod arferion rheolaeth da yng nghynadledd flynyddol CYDAG. Ochr yn ochr â hynny, rôl bwysig arall y chwaraeodd CYDAG oedd ymateb i ddogfennaeth ymgynghorol gan y llywodraeth a chyrff cenedlaethol eraill er mwyn ceisio sicrhau bod buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu cynnwys wrth i bolisïau gael eu datblygu a'u gweithredu yn genedlaethol. Trefnodd y gymdeithas gyfarfodydd rheolaidd gyda gweinidogion addysg, uwch weision sifil, arweinwyr cyrff megis Estyn, CBAC a Cymwysterau Cymru. Prif nod y cyfarfodydd hyn oedd hybu deialog adeiladol gyda'r cyrff hyn er mwyn ehangu dealltwriaeth o sut mae polisïau yn effeithio ar y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ceisiwyd hefyd gynnig cymorth i'r cyrff i gyfathrebu gydag aelodau CYDAG ac i fynychu cyfarfodydd un-dydd a'r gynhadledd flynyddol er mwyn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r aelodau. I'r un perwyl mae rhannau olaf yr erthygl hon yn nodi'r materion sydd yn gwasgu ar dimau rheolaethol ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae nifer o'r rhain yn gyffredin i'r gwasgfeydd sydd yn wynebu pob ysgol uwchradd beth bynnag bo cyfrwng yr addysgu ond maent o berthnasedd arbennig yn y sector Cymraeg oherwydd natur arbennig y sector hwnnw.

**Geiriau allweddol:** Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG), sector uwchradd, heriau.

## *Cyflwyniad*

Ceisia'r erthygl hon osod, yn y lle cyntaf, gefndir a chyd-destun y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gan edrych ar y rhychwant eang o ysgolion sy'n dod o dan y teitl 'ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog' a'r gefnogaeth a gawsant gan CYDAG. Hefyd, amlinellir yr heriau penodol sy'n wynebu'r ysgolion hyn. Er bod yr heriau hyn yn debyg i'r rhai a wynebir gan y sector ysgolion cyfrwng Saesneg, mae yna bwysleisiau gwahanol. Y meysydd penodol a edrychir arnynt yw staffio, adnoddau, addysgeg, cwricwlwm, datblygiad proffesiynol parhaol, addysg cychwynnol athrawon a chyfathrebu. Cyfeirir hefyd at sut yr ymddengys yr heriau sy'n debygol o godi o'r broses ddatblygol o ran llunio a darparu'r cwricwlwm newydd a ddaw yn sgil adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr



07 CYDAG WJE 20/2.indd 139 23/10/2018 09:27

Athro Donaldson ynghyd â'r cynllun iaith sydd i gefnogi nod y llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

## *Cefndir*

Agorwyd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yn 1956 pan agorodd drysau Ysgol Glan Clwyd. Ers hynny, agorwyd llawer o ysgolion cyffelyb. Mae yna hefyd nifer sylweddol o ysgolion a bennir yn ysgolion dwyieithog. Roedd teitlau ysgolion fel rhai cyfrwng Cymraeg neu fel rhai dwyieithog yn deitlau oedd yn aml yn annelwig yn y gorffennol o ran union natur y ddarpariaeth o ran y cyfrwng dysgu. Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.*[1] Pwrpas y ddogfen oedd 'amlinellu diffiniadau a chategorïau ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu ym mywyd bob dydd yr ysgol'. Yn ôl rhestr gyfredol y llywodraeth mae yna 21 o ysgolion cyfrwng Cymraeg a 34 o ysgolion dwyieithog. Rhennir y 34 i dri chategori: mae 18 yng nghategori A, 12 yng nghategori B a 4 yng nghategori C. Hefyd, ymhlith y 151 o ysgolion Saesneg eu cyfrwng nodir bod 6 ohonynt yn ysgolion lle mai Saesneg yw'r cyfrwng yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Mae nifer a natur y categorïau o ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn arddangos yr amrywiaeth darpariaeth sy'n bodoli ar draws y 55 ysgol o dan y diffiniadau hyn. Hefyd dylid nodi sefydlu ysgolion 'drwodd', sef, ysgolion sy'n addysgu plant a disgyblion trwy ystod oed y cynradd a'r uwchradd. Mae 7 allan o'r 11 o'r rhain yn ysgolion dwyieithog.

O edrych yn ôl ar y cyfnod er agor yr ysgol Gymraeg gyntaf yn 1956 tan heddiw mae'r twf yn y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn syfrdanol. Ar y cychwyn, pan agorwyd ysgolion cyfrwng Cymraeg un wrth un, roedd yr ysgolion hynny yn ynysig am eu bod yn arwahanol. I ymateb i hynny sefydlodd yr ysgolion gysylltiadau er mwyn cynnig cyd-anogaeth a chyd-gynhaliaeth i'w gilydd. Dyma ddywed Mr Gwilym Humphreys, prifathro cyntaf Ysgol Rhydfelen pan agorodd yn 1963, yn ei gyfrol hunan-fywgraffiadol, *Heyrn yn y Tân*:

> Cysylltiad arall y bum yn awyddus i'w hyrwyddo oedd hwnnw rhwng yr ysgolion uwchradd Cymraeg â'i gilydd. Yn 1962, pan agorodd Rhydfelen, dim ond dwy ysgol uwchradd benodol Gymraeg arall oedd mewn bodolaeth – ysgolion Glan Clwyd (1956) a Maes Garmon (1961) a byddai Haydn Thomas, prifathro Glan Clwyd (a'i olynydd, Desmond Healey), Elwyn Evan, prifathro Maes Garmon, a



07 CYDAG WJE 20/2.indd 140 23/10/2018 09:27

> minnau mewn cyswllt parhaus. Ym Mehefin 1963, aeth holl staff Rhydfelen i Ysgol Glan Clwyd yn y Rhyl i gyfarfod ag athrawon y ddwy ysgol yn Sir y Fflint ac yno y ffurfiwyd Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymraeg i ganolbwyntio'n bennaf bryd hynny ar y broblem o gael gwerslyfrau Cymraeg. (Humphreys, 2000: 79)

Dros y blynyddoedd esblygodd y gymdeithas sylfaenol yna i fod yn Gymdeithas Prifathrawon dros Addysg Gymraeg (CPDAG) ac yna, yn ddiweddarach, i fod yn Gymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG). Bellach y mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd a bennir yn rhai cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gan ddiffiniad Llywodraeth Cymru yn aelodau o CYDAG (uwchradd). Nid corff undebol yw CYDAG ond corff sy'n cefnogi ac yn ceisio sicrhau tegwch ar gyfer agweddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y ddarpariaeth addysg yng Nghymru. Dylid nodi fod adran gynradd o CYDAG bellach wedi'i sefydlu gydag oddeutu 200 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn perthyn iddi. Ar gyfer yr erthygl hon y ffocws yw'r sector uwchradd.

O'r cychwyn fe gyflawnodd CPDAG, ac yna CYDAG, nifer o swyddogaethau i gynnal ei haelodau ac i gynnal deialog gydag nifer o gyrff ar lefel genedlaethol. Ar ran yr aelodaeth cynhaliwyd amryw o gyfarfodydd datblygiad proffesiynol un-dydd ar lefel genedlaethol ar gyfer uwch rheolwyr. Pan gyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1989 cynhaliwyd cyfarfodydd i ddehongli sut i weithredu'r gofynion cwricwlaidd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, lle roedd dwy iaith graidd. Ystyriwyd goblygiadau newydd y cwricwlwm, megis dylunio a thechnoleg, oedd yn peri her o ran trefniadaeth a staffio. Cynhaliwyd digwyddiadau tebyg pan gyflwynwyd newidiadau a gofynion stadudol eraill megis agweddau o'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Ymhen amser, penododd CYDAG uwchradd swyddog proffesiynol rhan-amser i gyd-gordio a threfnu'r cyfarfodydd a'r cyrsiau proffesiynol hyn. Am nifer o flynyddoedd ceisiwyd cynnig cefnogaeth ar gyfer y pynciau craidd bob dwy flynedd a'r pynciau allgraidd dros gylch amser o ryw tair blynedd. Hefyd, ers blynyddoedd cynnar CPDAG cynhaliwyd cynhadledd flynyddol breswyl. Ffocws y cynadleddau hyn oedd y materion cyfredol oedd o ddiddordeb i'r aelodaeth. Defnyddiwyd y cynadleddau hefyd er mwyn gwahodd uwch swyddogion y llywodraeth a chyrff megis yr arolygiaeth, CBAC ac eraill. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau dderbyn mewnbwn gan y rhai oedd yn arwain blaengareddau ar lefel genedlaethol tra, ar yr un pryd, yn caniatáu deialog rhwng y cyrff hynny a'r gymdeithas. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyfyngwyd y gynhadledd



07 CYDAG WJE 20/2.indd 141 23/10/2018 09:27

flynyddol i achlysur un dydd gan fod uwch rheolwyr a phenaethiaid yn ei chael yn gynyddol anodd i fedru mynychu am ddau ddiwrnod. Fel y nodir mewn mannau eraill o'r erthygl hon, symptom yw hynny o'r wasgfa gynyddol sydd ar athrawon ar bob lefel gan gynnwys rheolwyr canol ac uwch yn ein hysgolion.

Dros y degawd diwethaf, bu'n rhaid i CYDAG ailfeddwl y ffordd orau o gefnogi ysgolion. Cafodd chwalu timau ymgynghorol yn yr awdurdodau lleol effaith andwyol ar godi safonau yn y pynciau allgraidd. Am gyfnod bu CYDAG yn denu oddeutu 25 o'u haelodau i bob cwrs a gynigiwyd ar amryfal destunau mewn amrediad o bynciau allgraidd, megis cerdd, celf, hanes, daearyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth. Roedd yr arfarniadau gan y cyfranogwyr yn hynod gadarnhaol. Ond ers y wasgfa ariannol o safbwynt rhyddhau athrawon, mae CYDAG wedi gorfod canolbwyntio yn hytrach ar gefnogi agweddau rheolaethol o fewn ysgolion.

Tua deng mlynedd yn ôl roedd angen sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel waelodlin o wybodaeth am beth oedd eu swyddogaeth a'r hyn a ddisgwylid ganddynt, er enghraifft sut i ddadansoddi data yn effeithiol, sut i hunan-arfarnu ar lefel ysgol ac adran ac yna gynllunio gwelliannau. Fe lenwodd CYDAG fwlch amlwg wrth i gonsortia ac awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru geisio datblygu strwythurau newydd i reoli ansawdd mewn ysgolion. Ceisiwyd argyhoeddi swyddogion yng Nghaerdydd mai consortia rhithiol i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru fyddai'r ateb. Ni ddaeth dim o hynny ac yn ddiweddarach ceisiodd CYDAG fod yn fwy dyfeisgar. Creda swyddogion y gymdeithas bod angen i ysgolion nid yn unig edrych ar eu sefyllfa eu hunain ond codi eu pennau 'tua'r mynyddoedd'. I'r perwyl hwn rhoddwyd cyfle i aelodau ymweld ag ysgolion oedd wedi eu hadnabod yn rhai 'rhagorol', yng Nghymru ac yn Lloegr, ac yna cawsant drafod eu profiadau a'u sylwadau mewn cynhadledd flynyddol. Ceisiwyd hefyd cael cyfraniadau gan ysgolion ar faterion llosg megis 'asesu ar gyfer dysgu' ac agweddau ar les disgyblion.

Ar hyd yr amser, bu'r gwahanol gyfarfodydd a chynadleddau, yn ôl asesiadau y rhai a'u mynychodd, yn llwyddiannus iawn. Roedd hynny'n adlewyrchiad o safon uchel y cyfranwyr oedd yn cynnwys cyfranwyr gwadd ond hefyd, ac yn bennaf, mewnbynnau rhagorol gan ysgolion CYDAG oedd mor hael yn rhannu eu harferion da ac yn darparu deunyddiau ardderchog ar gyfer yr aelodau.

Roedd cael diwrnodau datblygu proffesiynol i bob ysgol oedd yn aelod yn galluogi CYDAG i gael cyfraniadau gan CBAC a darparwyr allanol eraill ar gyfer yr holl ysgolion ar yr un pryd. Ond yn ogystal â hyn, byddai



07 CYDAG WJE 20/2.indd 142 23/10/2018 09:27

rhai ysgolion gwasgaredig yn dod at ei gilydd yn fwy lleol i rannu arfer dda. Er enghraifft, mae fforwm y de-ddwyrain yn offeryn gwerthfawr ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yno sydd weithiau'n teimlo'n ynysig tu fewn i'r consortia gyda chymaint o ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Gwireddir y ddihareb 'mewn undeb mae nerth'. Yn fwy diweddar bu i CYDAG y de-ddwyrain fabwysiadu dull o lunio triawdau rhwng tair ysgol ac agor eu drysau yn eu tro i 'ymweliad', neu fel mae rhai yn ei alw, 'arolwg answyddogol', gan gydweithwyr. Yn yr ymweliadau hyn, mae timau rheoli yn gosod gerbron eu cymheiriaid eu dogfennau, mae'r ddau ymwelydd yn ymweld â gwersi, yn cynnal cyfarfodydd gyda staff ar wahanol lefelau ac yn adrodd ar ddiwedd y cyfnod i'r tîm rheoli. Mae'r ysgolion yn ei weld fel ffordd effeithiol o gael barn werthfawr ymarferwyr eraill heb y pwysau sydd yn naturiol yn codi yn sgîl arolygiad gan Estyn. Mae'r drefn hon yn mynd o nerth i nerth.

Yn ogystal â'r gynhaliaeth broffesiynol, agwedd arall, bwysig o waith cenedlaethol CPDAG a CYDAG yw ymateb i ddogfennaeth ymgynghorol Llywodraeth Cymru. Dros y blynyddoedd ceisiwyd gwneud hynny mewn ffordd sydd yn adlewyrchu buddiannau disgyblion, myfyrwyr ac athrawon CYDAG ar draws y sbectrwm eang o ddwyieithrwydd. Ymhlith ymatebion i ddogfennau o'r fath, lleiafrif ohonynt sy'n mynegi persbectif y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac felly bu cyfraniadau CYDAG yn bwysig er mwyn i fuddiannau'r sector gael eu nodi gan y llywodraeth a chyrff cenedlaethol eraill.

I'r un perwyl, ceisiwyd trefnu cyfarfodydd cyson gyda gweinidogion addysg, uwch swyddogion y gwasanaeth sifil, CBAC, Estyn, Cymwysterau Cymru ac eraill er mwyn cynnal deialog adeiladol gyda'r cyrff a sefydliadau hyn.

O bryd i'w gilydd, bu CYDAG hefyd yn lleisio pryderon ei haelodau gerbron gweinidogion, ysgrifennydd cabinet ac uwch swyddogion. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, un o'r materion llosg hynny oedd yr anghyfiawnder nad oedd adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer disgyblion ac athrawon ar yr un pryd ag yr oedd adnoddau cyfrwng Saesneg. Cyfeirir at hynny yn y paragraffau sy'n dilyn.

Felly, dros y blynyddoedd, darparodd CYDAG uwchradd gefnogaeth ymarferol i'w haelodau trwy rannu arferion da yn ymwneud ag addysgu, dysgu ac asesu ar lawr dosbarth ynghyd ag arferion da ar lefel uwch arweinwyr. Ar yr un pryd cefnogwyd ysgolion trwy dynnu sylw at eu buddiannau a'u heriau gyda chyrff ac arweinwyr sefydliadau cenedlaethol.



07 CYDAG WJE 20/2.indd 143 23/10/2018 09:27

*Materion staffio*

Pan sefydlir ysgol o'r newydd, fel yn hanes yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, yr her gyntaf yw penodi athrawon a, chyn hynny, penaethiaid yr ysgolion hynny. Pan gychwynnwyd sefydlu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg doedd neb o'r athrawon a benodwyd wedi derbyn eu haddysg uwchradd nac uwch hwythau trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, roedd yna fentergarwch go iawn yn perthyn i'r arloeswyr hyn.

Niferoedd bychain o athrawon oedd eu hangen i staffio'r ysgolion a agorwyd yn ystod yr 1960au. Yn ei sylwadau ar hanes deng mlynedd gyntaf Ysgol Rhydfelen (Humphreys ac eraill, 1973), nododd Mr Gwilym Humphreys fod llawer wedi ei holi os y cafodd anhawster i benodi athrawon cymwys i'r ysgol yn ystod y cyfnod cynnar hwnnw (1963–73). Dyma beth a gofnododd:

> Yr ateb yn syml yw na chefais fawr o anhawster. Nid oedd nifer yr ymgeiswyr yn arbennig o uchel yn aml (ac eithrio ar gyfer swyddi dysgu Cymraeg fel pwnc, pan geisiai degau bob amser), ond roedd rhywun neu rywrai bob tro gyda fflach yr argyhoeddiad yn eu llygaid yn dod i ateb pob galwad am athro ychwanegol. (1973: 24)

Bellach y mae yna heriau sylweddol a chynyddol er mwyn sicrhau cyflenwad llawn o athrawon cymwys ar draws y cwricwlwm ac erbyn hyn mae yna brinder o ymgeiswyr cymwys mewn nifer o bynciau. Hefyd, niferoedd bychain sy'n ymgeisio am swyddi penaethiaid ysgolion uwchradd yn y sector Cymraeg a dwyieithog. Yn ystod y blynyddoedd 2013, 2014 a 2015, cynhaliodd CYDAG (uwchradd) arolwg o sefyllfa staffio ysgolion CYDAG. Dengys pob un o'r arolygon hynny bod yna brinder mawr o ymgeiswyr ar gyfer swyddi Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd aelodau CYDAG hefyd yn nodi prinder ymgeiswyr cymwys mewn llawer o feysydd eraill. Roedd y patrymau ar gyfer y meysydd hyn yn llai cyson ac yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol yr ysgolion.

Mewn ardaloedd lle y bu twf yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft ar hyd coridor yr M4, bu galw cynyddol am fwy o athrawon i lenwi swyddi. Roedd hwylustod cymudo ar hyd yr M4 yn hwyluso symudiad athro o swydd mewn un ysgol i swydd mewn ysgol arall. Mae'r duedd yma'n dal i greu elfen o ansefydlogrwydd mewn staffio rhai ysgolion tra'n creu angen parhaus am athrawon i ddod i mewn i'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ar yr un pryd, mewn ardaloedd lle mae ysgolion Cymraeg yn gymharol agos i'w gilydd mae yno gystadlu am y nifer bychan



07 CYDAG WJE 20/2.indd 144 23/10/2018 09:27

o athrawon cymwys sydd ar gael mewn pynciau lle mae yna brinder sylweddol yn bodoli. Dengys arolygon CYDAG mai nid ffenomenon yn y de yn unig yw hon ond ei bod hefyd yn digwydd mewn rhai meysydd pwnc mewn ardaloedd yn y gogledd a'r canolbarth.

Mae'r prinder o ymgeiswyr cymwys ar gyfer dysgu Saesneg fel pwnc yn un diddorol o ran y sector Cymraeg a dwyieithog. Un o amcanion creiddiol yr ysgolion hyn yw creu, cynnal a hybu ethos ac awyrgylch Gymreig ac yn enwedig felly pan bo ysgol mewn ardal lle does dim llawer o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gymuned leol. Roedd ymatebion nifer o ysgolion i arolygon CYDAG (2013–15) yn sôn am orfod penodi athrawon Saesneg di-Gymraeg neu gydag ond ychydig iawn o afael ar y Gymraeg er mwyn boddio anghenion y pwnc. Pair hyn densiynau cyffredinol o fewn yr ysgolion hyn o ran cynnal yr ethos Gymraeg ac mae yn creu tensiwn fwy byth os oes angen i'r cyfryw athrawon gymryd rôl fugeiliol fel athro dosbarth.

Cwyd problemau hefyd o fewn ysgolion a'u diffinnir yn ddwyieithog. Yn aml tyfodd y rhain allan o'r ysgolion cyfrwng Saesneg oedd yn bodoli eisoes mewn nifer o drefi, bach a mawr, ar draws y wlad. Pan gyflwynwyd elfennau cyfrwng Cymraeg i mewn i'r ysgolion hyn trwy addysgu rhai pynciau yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, gallai hynny fod, a dal i fod, yn heriol am nad oedd proffil ieithyddol y corff o athrawon yn cyfateb i batrwm cyfrwng gwahanol bynciau.

Un her sy'n deillio o hynny yw sut i ddefnyddio athrawon yn y ffordd orau i foddio'r patrwm cyfrwng tra ar yr un pryd yn gwarchod safonau cyrhaeddiad dysgwyr a phwnc. Gwelir yr un fath o her i weithgaredd rheolaethol pan yn ceisio sicrhau buddiannau gorau dysgwyr pan fod yna brinder athrawon cymwys mewn meysydd craidd megis gwyddoniaeth a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4. Er enghraifft, mae ambell ysgol yn gosod eu hathrawon mathemateg cryfaf gyda grwpiau ym mlwyddyn 10 ac yna'n cofrestru'r grwpiau hynny i sefyll eu harholiadau TGAU yn gynnar ar ddiwedd blwyddyn 10. Yna, ym mlwyddyn 11, defnyddir yr athrawon cryfaf hyn i ddysgu grwpiau eraill o flwyddyn 11 fel eu bod hwythau yn ymelwa o arbenigedd yr athrawon hyn. Canlyniad diffygion cyffelyb wrth geisio sicrhau cyflenwad digonol o arbenigedd ymhlith athrawon yw'r pryder na ellir sicrhau cynnydd llawn o ran cyrhaeddiad disgyblion sydd wedyn yn gollwng pwnc neu bynciau ym mlwyddyn 11.

Er na holwyd hynny yn benodol yn arolygon CYDAG, nodwyd yn yr ymatebion cyffredinol gan ysgolion (a cheir hefyd cadarnhad gan swyddogion CYDAG ar sail eu hadnabyddiaeth o ysgolion y gymdeithas) bod yna brinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid a dirprwyon yn ystod y



07 CYDAG WJE 20/2.indd 145 23/10/2018 09:27

bedair mlynedd ddiwethaf. Yn arolwg hydref 2016 cafwyd amlinelliad mewn un ardal ddaearyddol lle, dros gyfnod o ddeunaw mis, hysbysebodd pum ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg swydd pennaeth. Y nifer o ymgeiswyr a gafwyd ar gyfer y bum swydd yn ôl eu trefn oedd: 1, 1, 2, 0 a 2. Mewn ardal arall yn ystod y cyfnod diweddar hwn cafwyd cyfanswm o ddim ond naw cais ar gyfer chwech swydd pennaeth uwchradd. Hefyd tua'r un adeg, roedd pump o ysgolion dwyieithog mewn ardal arall wedi gorfod penodi penaethiaid gweithredol dros dro (rhai am gyfnod o hyd at flwyddyn neu hirach) oherwydd y diffyg o ymgeiswyr cymwys ar gyfer swyddi penaethiaid. Mae'r enghreifftiau yhn yn dangos dwyster y sefyllfa a'r her sy'n wynebu rheolaeth ac arweinyddiaeth yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Adroddodd sawl pennaeth mewn ymateb i'r arolygon bod yna brinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi dirprwyon. Felly, mae yna her arbennig o ran paratoi, annog a chynnal athrawon rheolaeth canol ac uwch i ddatblygu'r sgiliau, cymwyseddau, yr hyder a'r awydd i godi eu gorwelion tuag at lenwi swyddi rheolaethol uwch.

Ar hyn o bryd mae'r broses o lunio cwricwlwm newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Nghymru ar y gweill. Mae'n profi i fod yn dasg heriol iawn i'r ysgolion a benodwyd yn 'ysgolion arloesol' a'u staff sydd wedi ymroi i ymrafael â'r her. Datganodd yr adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* weledigaeth uchelgeisiol a chysyniadol heriol ar gyfer natur y cwricwlwm newydd. Nid y lleiaf o'r heriau yw gweddnewid y prosesau addysgu a dysgu, a rôl a statws asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu. Eir i'r afael â'r her mae hyn yn ei osod i bob ysgol a phob athro yng Nghymru gan gynnwys y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn adran isod o'r erthygl hon.

Fodd bynnag yn ystod y ddwy neu dair mlynedd ddiwethaf adrodda penaethiaid ysgolion Cymraeg a dwyieithog bod staff yn cael eu galw allan i ystod o gyfarfodydd niferus. Nodwyd hynny fel un o'r ymatebion cyffredinol i arolygon staffio CYDAG 2013–15. Mae yna ddau sylw i'w wneud am hynny, sef, yn gyntaf, bod ysgolion yn profi anawsterau mawr i ddod o hyd i athrawon cyflenwi cymwys sy'n medru'r Gymraeg. Mae chwilio am yr athrawon cyflenwi hyn yn dasg feichus i ysgolion ac yn sugno dogn sylweddol o amser rheolwyr. Yr ail sylw yw bod tynnu allan athrawon ar y fath raddfa yn torri ar draws llif yr addysgu a dysgu ar lawr dosbarthiadau cyfredol. Hynny yw, mae'n cael sgil effaith andwyol ar safonau'r addysg sy'n digwydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd.

Ni chyfyngir yr angen i sicrhau staff digonol i'r angen am athrawon yn y sector Cymraeg a dwyieithog. Mae hefyd angen niferoedd digonol o



07 CYDAG WJE 20/2.indd 146 23/10/2018 09:27

gynorthwywyr dysgu a staff eraill megis technegwyr ac ati sydd yn gymwys i'w swyddi ac sydd hefyd yn medru'r Gymraeg. Nid yw hynny yn rhywbeth i'w gymryd yn ganiataol ac mae llawer o ysgolion yn gorfod penodi staff atodol o'r fath sydd yn berchen ar y cymwyseddau perthnasol ond nad sy'n medru'r Gymraeg. Mae hyn eto yn creu tensiwn o ran atgyfnerthu ethos Gymraeg yr ysgolion hynny.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf dioddefodd ysgolion doriadau i'w cyllidebau. Mewn llawer o ysgolion o bob cyfrwng arweiniodd hynny at dorri lefelau staffio. Mae'r prosesau mae'n hysgolion yn mynd drwyddynt i gyflawni'r toriadau hyn yn gosod straen ar y gweithlu cyfan. Nid yw hynny'n atgyfnerthu'r ewyllys i staff ymgymryd â heriau gweithredu newidiadau a osodir gan gyflwyno cymwysterau newydd ac ati. Mae yna wrthdynnu cymhleth rhwng prinder athrawon ar gyfer nifer o feysydd pwnc ar un llaw a'r angen i dorri staff ar y llaw arall. Hefyd, gyda datblygiad y cwricwlwm newydd ymhell o gyrraedd man lle mae sicrwydd o union strwythur a natur y cwricwlwm newydd, gallai ysgolion wneud toriadau staffio y gallai fod yn angenrheidiol o fewn y dair neu bedair mlynedd nesaf. Mae'r tensiynau hyn yn bodoli mewn ysgolion beth bynnag yw ei polisi cyfrwng addysgu a dysgu ond oherwydd bod y pwll o athrawon potensial ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn llai na'r pwll sydd ar gael i ysgolion Saesneg eu cyfrwng, mae'r tensiynau hyn yn fwy arwyddocaol ynddynt hwy.

## *Adnoddau*

> Ym Mehefin 1963, aeth holl staff Rhydfelen i Ysgol Glan Clwyd yn y Rhyl i gyfarfod ag athrawon y ddwy ysgol yn Sir y Fflint [Glan Clwyd a Maes Garmon] ac yno y ffurfiwyd Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymraeg i ganolbwyntio'n bennaf bryd hynny ar y broblem o gael gwerslyfrau Cymraeg. (Humphreys, 2000: 79)

Dyna sylw Mr Gwilym Humphreys yn ei gyfrol yn amlinellu hanes cychwynnol Ysgol Rhydfelen. O'r cychwyn cyntaf, felly, roedd arweinyddiaeth yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llafurio i ddarparu addysg o'r safon orau ond heb yr arfau oedd gan yr ysgolion cyfrwng Saesneg, sef, adnoddau addas a safonol ar gyfer eu disgyblion a'u hathrawon. Er bod yna welliant sylweddol wedi digwydd dros y blynyddoedd, deil yna annhegwch ac anghyfiawnder sylfaenol am na ddarperir yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yn gydamserol â'r adnoddau cyfrwng Saesneg. Bu hynny'n wir ar hyd yr



07 CYDAG WJE 20/2.indd 147 23/10/2018 09:27

hanner canrif ers sefydlu Ysgol Glan Clwyd ond gosodwyd y chwyddwydr yn ffyrnicach fyth ar yr annhegwch gyda chyflwyniad toreth o gymwysterau newydd dros y blynyddoedd diwethaf. Amlygodd yr amserlen afresymol a osodwyd ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd o Fedi 2015 pa mor annigonol oedd y rhag-gynllunio i sicrhau caffael adnoddau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yn hollol gydamserol. Roedd yna fwlch o o leiaf chwech mis ac yn aml hyd at flwyddyn neu fwy rhwng ymddangosiad deunydd cyfrwng Saesneg a'r deunydd cyfatebol yn y Gymraeg.

Tynnodd CYDAG sylw cyhoeddus at yr anghyfiawnder hwn a'r diffyg triniaeth cyfartal a ddylai fodoli rhwng darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mewn ymateb, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Cabinet uwch-gynhadledd i ystyried y mater yn Ebrill 2017. Erbyn amser llunio'r erthygl hon, prin yw'r arwyddion y bu gweithredu yn sgil y syniadau adeiladol a chyffrous a godwyd yn yr uwch-gynhadledd. Ymhlith y syniadau hynny roedd yna awgrymiadau radical o feithrin gallu gweisg Cymru i fedru cydweithio i awduro a chynhyrchu deunyddiau addysgol aml-lwyfan i wasanaethu'r cwricwlwm newydd pan ddaw hwnnw i fodolaeth. Un o'r egwyddorion a leisiwyd gan rai oedd yr angen i warantu y byddai'r deunydd addysgu a'r gynhaliaeth broffesiynol i athrawon wedi'u cwblhau ac yn eu lle o leiaf flwyddyn cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar lawr dosbarth. Petai hynny'n cael ei osod yn ei le, yna byddai'r isadeiledd yn gadarnach o ran sicrhau bod addysgu a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Byddai hynny'n lleihau un o'r heriau a'r gwasgfeydd a osodir ar dimau rheolwyr uwch a rheolwyr canol ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn wir, mae diffyg argaeledd adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg fisoedd lawer, hyd at flwyddyn neu fwy, yn hwyrach na'r deunyddiau cyfrwng Saesneg wedi bod yn achos o annhegwch ac anghyfiawnder sylfaenol i ddisgyblion ac athrawon a ddewisodd astudio ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Un agwedd heriol sy'n wynebu'r gyfundrefn addysg, boed y cyfrwng yn Gymraeg, Saesneg neu ddwyieithog, yw'r angen i gynhyrchu mwy o bobl a all gynllunio a chreu yr adnoddau digidol aml-lwyfan sydd eu hangen fel rhan o osod y cwricwlwm newydd yn ei le. Er, efallai, nad yw hynny'n ffactor sy'n effeithio'n uniongyrchol ar lawr y dosbarth, y mae yna wir angen i feithrin ar fyrder yr arbenigedd dwyieithog i allu gosod y deunyddiau gerbron dysgwyr ac addysgwyr. Hefyd, wrth sgwrs, gosodir her sylweddol arall i dimau rheolaethol ac arweinyddiaeth o sut i sicrhau bod gan eu hathrawon a chynorthwywyr dysgu y sgiliau angenrheidiol i



07 CYDAG WJE 20/2.indd 148 23/10/2018 09:27

ddefnyddio'r dulliau ac adnoddau digidiol er budd mwyaf eu disgyblion. Cwyd, hefyd, y cwestiwn a oes gan ein hysgolion y cyfarpar digidol o ran maint, niferoedd ac ansawdd digonol i sicrhau llwyddiant y deunyddiau a dulliau digidol ac i warantu argaeledd rhwydd ar gyfer pob dysgwr.

### *Addysgeg*

Nodweddwyd y proffil staffio cynnar mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg gyda brwdfrydedd a'r awch i arbrofi trwy dorri tir a chwysi newydd gan mai nhw oedd y garfan gyntaf o athrawon i osod addysg cyfrwng Cymraeg ar y map a phrofi bod dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o leiaf mor llwyddiannus â dysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Dros y blynyddoedd ac ar wahanol adegau clywir honiadau y naill ffordd a'r llall am fanteision addysg ddwyieithog ac amlieithog. Clywyd hefyd am sefyllfaoedd o wledydd eraill, Canada er enghraifft, lle roedd yna dystiolaeth bod addysg ddwyieithog yn arwain at fanteision ehangach a mwy cyffredinol i'r dysgwyr. Er gwaethaf hynny, prin yw'r enghreifftiau lle'r aethpwyd i'r afael gyda gosod rhaglen genedlaethol bwrpasol yng Nghymru i osod fframwaith a sail addysgeg gadarnach ar gyfer addysgu'n dwyieithog ac i fanteisio ar gaffael ar ddwy neu fwy o ieithoedd i gryfhau dysgu mwy cyffredinol y dysgwr.

Yn y cyhoeddiad diweddar gan y llywodraeth (*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*) gosodir ffocws cenedlaethol ar yr angen i symud ysgolion ar hyd gontinwwm darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod mwy o ddysgwyr yn gwneud defnydd o'r Gymraeg y tu allan i furiau'r ystafell Gymraeg o fewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn ogystal ag ysgolion dwyieithog. Mae'n amlwg bod hynny yn gofyn am osod isadeiledd addysgeg gadarn ar y ffordd orau i gyflwyno darpariaeth ddwyieithog ym mhob un ysgol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol. Ond nid yn unig yn y sector dwyieithog a chyfrwng Saesneg mae angen hynny. Mae ei angen hefyd ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod yr addysgeg a'r dysgu ar gyfer y dysgwyr dwyieithog hyn hefyd mor effeithlon ag y gall fod. Dylid datblygu modelau pedagogaidd i feithrin yr awch a'r gallu i ddysgu trydydd a phedwerydd iaith a mwy. Yn ei adroddiadau diweddar, ar gyfer 2017 a 2018, noda Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru fod addysgu yn un o'r agweddau gwannaf o fewn y gyfundrefn addysg. O osod hynny ochr yn ochr â'r uchelgais i Gymreigeiddio pob ysgol a chadarnhau seiliau addysgu, byddai o gymorth mawr i dimau arweinyddiaeth



07 CYDAG WJE 20/2.indd 149 23/10/2018 09:27

i allu troi at fodelau cadarn o ran addysgu trwy gyfrwng dwy neu mwy o ieithoedd.

Fel y cyfeiriwyd ato yn barod, gosoda adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* heriau arbennig o ran chwyldroi prosesau addysgu a dysgu gan gynnwys yn greiddiol dulliau asesu ffurfiannol grymus ar gyfer hybu dysgu. Bydd timau arweinyddiaeth o dan bwysau i wneud a gwireddu hyn. I wneud hynny mae angen, ar lefel genedlaethol, llunio modelau i osod seiliau cadarn o ran addysgeg i arfogi pob athro a chynorthwywyr dysgu gyda hyder a sgiliau o'r newydd. Dylai'r modelau ynghyd â'r gynhaliaeth broffesiynol angenrheidiol fod yn eu lle ac wedi eu cwblhau ar gyfer pob athro o leiaf blwyddyn cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar lawr dosbarth. O ran y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog bydd yn rhaid sicrhau bod hyn oll ar gael yn y Gymraeg i bawb sydd ei angen ar yr un pryd ac i'r un safon a'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Ar sail egwyddor, ni ddylid cychwyn prosesau o'r fath trwy gyfrwng y Saesneg tan bod yn union yr un ddarpariaeth yn barod i'w chyflwyno trwy'r Gymraeg (neu i'r gwrthwyneb os byddai'r ddarpariaeth Gymraeg yn barod yn gyntaf).

## *Cwricwlwm*

O bryd i'w gilydd clywir sylwadau, yn aml o'r sector cyfrwng Saesneg, bod cynnwys y Gymraeg yn y cwricwlwm yn gwasgu elfennau eraill o'r neilltu. Mae angen gosod yn glir nad yw hynny o anghenraid yn wir gan fod yna, dros y blynyddoedd, fodelau cwricwlaidd yn y sector Cymraeg a dwyieithog sy'n cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg fel dau bwnc craidd ac sydd yn dal i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol cystal ag unrhyw fodel yn y sector Saesneg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gosodwyd gwasgedd sylweddol ar allu ysgolion o bob cyfrwng i gynnig cwricwla eang, cytbwys a pherthnasol i drwch o'u disgyblion gan yr orfodaeth i gynnwys arlwy o 30 pwnc gan gynnwys 5 galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4. Ond nid sgil effaith bod y Gymraeg yn bwnc gorfodol yw hynny.

Fodd bynnag, gosododd y rheidrwydd i gynnig arlwy o 30 pwnc wasgedd ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddod o hyd i bartneriaid addysgol a allai gyflenwi cyrsiau mewn meysydd newydd, ychwanegol, gan wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Gosododd hyn heriau sylweddol gerbron timau arweinyddiaeth o fewn y sector oedd yn ychwanegol i'r heriau a wynebai ysgolion yn y sector Saesneg. Mae angen cadw hyn



07 CYDAG WJE 20/2.indd 150 23/10/2018 09:27

mewn cof wrth deithio tuag at y cwricwlwm newydd a fframwaith adeiledd y cwricwlwm hwnnw. Bydd angen sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr yn ddiwahân o'r cyfrwng dysgu yn ogystal â ffactorau megis lleoliad daearyddol mewn ardaloedd trefol a gwledig ac ati.

### *Datblygiad proffesiynol parhaol*

Cyfeiriwyd at hyn ar gychwyn yr erthygl hon. Mae'r heriau y bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ei greu yn rhai sylweddol ar draws holl ysgolion Cymru. Gwasgedd ychwanegol ar y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer rhai meysydd yw dod o hyd i ffynonellau datblygiad proffesiynol o ansawdd priodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Un ffactor sydd ynghlwm â hyn yw lleoliad ysgolion o fewn y gwahanol awdurdodau oherwydd y patrwm anwastad sydd ar gyfer argaeledd cynhaliaeth broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gosoda hyn wasgfeydd ar rai timau rheoli a phenaethiaid wrth geisio sicrhau darpariaeth cymwys ar gyfer eu staff. Effeithir hefyd ar reolwyr canol mewn meysydd pwnc neu ardaloedd dysgu a phrofiad a ddaw yn sgil cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ymddengys bod rôl i'r pedwar consortiwm a'r llywodraeth ar lefel cenedlaethol i osod darpariaeth sydd yn medru boddio anghenion datblygiad proffesiynol staff ym mhob ysgol, beth bynnag bo'r cyfrwng a chan wneud hynny ar delerau hollol gyfartal o ran argaeledd, ansawdd a chost.

### *Atebolrwydd*

Yn ddi-os un o'r prif ffactorau sy'n rhwystr i ddenu mwy o bobl i ymgeisio am swyddi rheolaeth uwch a, hefyd, penaethiaid pynciau craidd yw'r gwasgedd i ymateb i ofynion atebolrwydd parhaus sy'n dod o aml gyfeiriadau. Mae'r gyfundrefn mesur perfformiad a chynnydd wedi cyrraedd pwynt lle mae'n andwyol i wella safonau yn un o'r prif feysydd sydd angen datblygu, sef, safonau addysgu a dysgu ar lawr dosbarth. Ers sawl blwyddyn telir mwy o sylw i, a rhoddir mwy o bwys ar ddangosyddion cyrhaeddiad ac, o gymharu â'u perthynas â'r ansawdd prosesau addysgu a dysgu ar lawr dosbarth, nid ydynt yn adlewyrchu perfformiad yn yr ystod lawn o brofiadau a chyflawniad dysgwyr.

O safbwynt y sector cyfrwng Cymraeg, bu sawl enghraifft o ymgynghorwyr proffesiynol o'r tu allan yn ymweld ag ysgolion cyfrwng Cymraeg

pan nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg o gwbl neu yn annigonol i lawn ddeall beth y maent yn ei weld wrth arfarnu. Sut all swyddogion o'r fath ddod i farn broffesiynol gytbwys a deallus ar sail wir ddirnadaeth o'r hyn y maent yn ei weld yng ngwaith dysgwyr neu o fewn ystafelloedd addysgu? Sut allant sefydlu hygrededd yn eu barn am safonau proffesiynol heb sôn am estyn cymorth i'r ysgolion ar sut i godi safonau?

Rhaid sefydlu rhwydwaith o ymgynghorwyr sy'n hollol gymwys i gynnig y gwasanaethau hyn i ysgolion ar draws Cymru er mwyn cefnogi pob ysgol yn ddiwahân beth bynnag yw ei pholisi cyfrwng.

Mater a fu o gonsýrn i nifer o benaethiaid y sector Cymraeg a dwyieithog yw'r modd yr ymdrinnir â'r Gymraeg o fewn y dangosyddion perfformiad. Yn yr ysgolion hyn mae yna fuddsoddiad cwricwlaidd i gyflwyno dwy iaith graidd. Arweinia hynny at rymuso galluoedd dwyieithog y disgyblion ac mae gwneud hyn wedi cyfrannu at yr ymdrechion i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Cymhwysedd arall a ddatblygir yn yr ysgolion hyn yw y gallu i drawsieithu. Yn rhannol gorfodir hynny gan y diffyg adnoddau cydamserol a gyfeirir ato mewn man arall yn yr erthygl hon oherwydd bod angen medru trawsieithu er mwyn defnyddio adnoddau Saesneg mewn cyd-destun addysgol Cymraeg. Mae natur yr addysgu a dysgu yn cymell y gallu i fedru troi o un iaith i'r llall yn ystod yn broses ddysgu. Yng nghyd-destun creu miliwn o siaradwyr efallai ei bod yn bryd i gydnabod yr allbwn ieithyddol pwysig hwn trwy gydnabod ac adeiladu dangosydd perfformiad sy'n fesur o feithrin dwyieithrwydd ymhlith y corff o ddysgwyr.

Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu, mae yna gyfle i ystyried yr elfen hon o lythrennedd deuol o fewn dyluniad y cwricwlwm a hefyd i Estyn ystyried rhoi mwy o ffocws ar hyn yn y fframwaith arolygu gan y bydd angen rhyw fath o fesur llwyddiant wrth fonitro yr ymdrechion i greu miliwn o siaradwyr.

## *Cyfathrebu*

Un elfen bwysig o swyddogaeth timau arweinyddiaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yw eu strategaethau a'u gweithdrefnau cyfathrebu gyda chynulleidfa eang sy'n cynnwys eu staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae heriau tebyg, os nad mwy, yn wynebu ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau aml-ethnig ac amlieithog. Golyga'r gofynion ieithyddol (dwyieithog) bod angen sicrhau bod holl gyfryngau cyfathrebu – ar lafar a



07 CYDAG WJE 20/2.indd 152 23/10/2018 09:27

thrwy dogfennau, y wê, negeseuon testun ac e-bost, ac ati – fod ar gael yn brydlon yn y ddwy iaith yn erbyn llinellau amser tynn. Golyga hyn gostau o ran amser i gyfieithu a chost oherwydd cynhyrchu dogfennaeth/deunydd yn y ddwy (neu mwy) o ieithoedd. Gall hyn gynnwys darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd a dulliau o gynhyrchu dogfennau yn y dwy iaith. Yn aml, oherwydd gwasgfeydd cyllidol, ymgymerir â'r gwaith yma o gyfieithu deunyddiau cyfathrebu gan staff yr ysgol gan gynnwys, yn aml, aelodau'r tîm arweinyddiaeth. Roedd yna gyfnod pan cydnabuwyd hyn fel elfen o'r fformiwlâu dosbarthu cyllidebau o fewn rhai siroedd. Gwelir llai o hynny erbyn hyn er bod yr angen am ddarparu strategaeth gyfathrebu ddwyieithog yn dal yn elfen bwysig o waith ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## *Edrych tua'r gorwel*

Fel y nodwyd uchod mae llawer o newidiadau sylweddol ar y gweill a fydd yn herio'r gyfundrefn addysg yn Nghymru ar draws y sbectrwm cyfrwng. Y ddwy brif elfen, o bosib bydd cyflwyniad y cwricwlwm newydd a cyflawni'r cynllun gweithredu i anelu tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr.

Un o'r prif elfennau fydd ei angen o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llawn fydd sicrhau bod y deunyddiau cwricwlaidd a'r gynhaliaeth proffesiynol wedi'u cwblhau a'u rhoi yn eu lle o leiaf flwyddyn cyn y cyflwynir y cwricwlwm ar lawr dosbarth. Golyga hynny bod angen gwarantu na ryddheir unrhyw adnoddau, beth bynnag eu natur na'u cyfrwng, tan fod y cyfan ar gael i safon yn y ddwy iaith.

O fewn datblygiad y cwricwlwm mae ystyriaeth arwyddocaol yn cael ei roi i lunio un rhaglen astudio ar gyfer y Gymraeg gan ddileu y rhaniad rhwng mamiaith ac ail iaith. Bu CYDAG yn gwasgu am ddatblygu continwwm o gaffael y Gymraeg ers dros ugain mlynedd. Felly, tra'n croesawu'r datblygiad sydd ar y gweill, mae gan benaethiaid y sector Cymraeg a dwyieithog rhai pryderon ynglŷn â sut y gwneir hyn. Yn gyntaf, rhaid i unrhyw ddiwygiadau fedru diogelu a gwarantu cynnal safonau uchel o ran y Gymraeg ar begynau uchaf y rhychwant cyrhaeddiad, sy'n cyfateb i safonau mamiaith TGAU a Safon Uwch. Yn ail, deellir bod ystyriaeth yn cael ei roi i osod cwricwlwm y Gymraeg ar strwythur a seilir ar y fframwaith ieithoedd Ewropeaidd. Os mabwysiadir hynny dylid hefyd ystyried gosod y cwricwlwm Saesneg a phob iaith fodern yn erbyn



07 CYDAG WJE 20/2.indd 153 23/10/2018 09:27

yr un fframwaith fel bod statws ac is-adeiledd cyffredin i'r holl ieithoedd o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru.

O ran cynhyrchu miliwn o siaradwyr, mae yna sensitifrwydd y gallai'r nod o Gymreigeiddio pob ysgol ar hyd continwwm danseilio ac erydu'r gwaith y mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei gyflawni gan y gallai rhai carfannau o rieni mewn rhai ardaloedd fod o'r farn bod y ddogn o'r Gymraeg a Chymreictod y byddai ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn eu cynnig, wrth iddynt symud ar hyd y continwwm, yn ddigonol i'w plant nhw. Hynny yw, gallai arwain at dynnu dysgwyr allan o'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a, thrwy hynny, danseilio bwriad creiddiol y llywodraeth o gynhyrchu miliwn o siaradwyr a all gyfathrebu trwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn bryder sylweddol i dimau rheoli ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Wrth gwrs, mae llawer o newidiadau eraill ar y gweill, er enghraifft gweddnewid strwythur y gyfundrefn a'r prosesau sy'n ymwneud a boddio anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r newidiadau niferus eraill hyn yn digwydd ochr yn ochr â datblygiad y cwricwlwm newydd a gosod isadeiledd er mwyn cychwyn ar y daith o'r presennol i gynhyrchu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Un o'r prif adnoddau sydd ei angen ar bob ysgol, beth bynnag yw cyfrwng y dysgu, yw amser o ansawdd digonol i sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu yn deall, yn gallu cynllunio ac yna gweithredu'r newidiadau yn effeithlon gyda'r nod clir o geisio codi safonau addysg Cymru ar lefel dysgwyr unigol. Mae'r diffyg amser a'r gwasgedd gwaith mae hynny'n ei greu yn gosod rhwystr arall i recriwtio mwy o athrawon, ac yn enwedig athrawon sy'n medru addysgu yn y sector Cymraeg a dwyieithog. Mae hefyd yn ei gwneud yn llai atyniadol i ddenu mwy o athrawon cymwys i anelu am swyddi rheolaeth ac arweinyddiaeth ganol ac uwch gan gynnwys mwy o ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid ysgol.

## *Diweddglo*

Yn yr erthygl hon tynnwyd sylw at nifer o wasgfeydd sydd hefyd yn bryderon i'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- prinder athrawon ar draws y cwricwlwm ac yn enwedig mewn rhai meysydd megis mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg;
- y nifer fechan o ymgeiswyr ar gyfer swyddi uwch reolwyr a phenaethiaid;



07 CYDAG WJE 20/2.indd 154 23/10/2018 09:27

- gwaredu'r anghyfiawnder sylfaenol o fethu â darparu deunyddiau dysgu ac addysgu yn hollol gydamserol yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- datblygu medrau i greu, datblygu a darparu cwricwlwm digidol ar draws y cwricwlwm;
- datblygu modelau addysgeg i sicrhau bod yr addysgu a dysgu dwyieithog o'r safon orau posibl ar draws holl ysgolion Cymru. Mae hyn yn berthnasol i'r trwch o ysgolion sydd yn y sector uwchradd os yw'r llywodraeth i wireddu y weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr. Mae hefyd yn berthnasol i sicrhau'r safon gorau addysgu a dysgu ieithoedd o fewn y sector Cymraeg dwyieithog;
- creu is-adeiledd gynhwysfawr o ran cyfrwng ar draws Cymru i warantu argaeledd y gynhaliaeth broffesiynol fydd ei hangen i weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus ym mhob ysgol beth bynnag bo'r cyfrwng ac ar delerau hollol gyfartal o ran argaeledd, ansawdd a chost;
- diwygio'r prosesau atebolrwydd i sicrhau tegwch i'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gan gynnwys ystyried codi proffil datblygu medrau dwyieithog a thrawsieithol myfyrwyr a chydnabod y buddsoddiad cwricwlaidd i ddarparu dwy iaith graidd.

Fel y dwedwyd ar gychwyn yr erthygl hon, mae llawer o'r heriau sy'n wynebu timau arweinyddiaeth y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hefyd yn wynebu ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Ond, wedi dweud hynny, mae angen gwneud yn echblyg y gwahaniaethau, a all fod yn rhai arwyddocaol, a'r modd y maent yn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Cymru.

## *Nodyn*

[1] Dyma ddiffiniadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd (hydref 2007):

Cyfrwng Cymraeg – addysgir pob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl.

Categori 2A – addysgir o leiaf 80 y cant o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl.

Categori 2B – addysgir o leiaf 80 y cant o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.



07 CYDAG WJE 20/2.indd 155 23/10/2018 09:27

Categori 2C – addysgir 50–79 y cant o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori 2CH – addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall.

## *Cyfeiriadau*


Donaldson G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Estyn (2016). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2017). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015–2016.* Caerdydd: Estyn.

Evans, H. (2012). *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Humphreys, G. E. ac eraill (1973). *Rhydfelen: Y Deng Mlynedd Cyntaf.* Llandysul: Gwasg Gomer, t. 24.

Humphreys, Gwilym E. (2000). *Heyrn yn y Tân*. Aberystwyth: Gwasg Pantycelyn, t. 79.

Llywodraeth Cymru (2007). *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.




07 CYDAG WJE 20/2.indd 156 23/10/2018 09:27

# *Arweinyddiaeth yn y Sector Uwchradd Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog: Yr heriau arbennig sy'n wynebu penaethiaid a darpar-benaethiaid mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

ARWEL GEORGE
*Cyn-bennaeth Ysgol Gyfun Penweddig, cyn-ysgrifennydd a swyddog Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG)*

## CRYNODEB

Mae'r erthygl hon yn cynnig amlinelliad o dwf ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ers agor yr ysgol gyntaf yn 1956. Ochr yn ochr â'r twf hwnnw sefydlwyd cymdeithas broffesiynol i gynnig modd i'r ysgolion gadw mewn cyswllt â'i gilydd. Yn y dyddiau cynnar ei theitl oedd Cymdeithas Prifathrawon Dros Addysg Gymraeg (CPDAG) ond yn ystod y degawdau diweddar esblygodd i fod yn Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG). Dylid nodi mai nid corff undebol yw CYDAG ond, yn hytrach, cymdeithas broffesiynol sy'n cefnogi a hybu buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Erbyn hyn, sefydlwyd cangen gynradd o CYDAG hefyd ond o bersbectif CYDAG uwchradd yr ysgrifennwyd yr erthygl hon. Mae'r erthygl yn nodi dwy brif agwedd o'r rôl y chwaraeodd y gymdeithas. Ar un llaw, darparodd y gymdeithas gynhaliaeth broffesiynol i athrawon, rheolwyr canol ac uwch rheolwyr trwy gynnal nifer sylweddol o gyfarfodydd proffesiynol un-dydd. Roedd y rhaglenni yn cynnig sesiynau i athrawon i rannu arfer dda o fethodoleg llawr dosbarth o fewn y pynciau craidd ac all-graidd. Cynigiodd sesiynau eraill themâu oedd yn berthnasol i reolwyr canol ac uwch megis deall a defnyddio data, dulliau hunan-arfarnu ac asesu ar gyfer dysgu. Yn ddiweddar trefnwyd bod cynrychiolwyr o nifer fechan o ysgolion CYDAG yn ymweld ag ysgolion a gydnabuwyd i fod yn rhai llwyddiannus iawn gan

*https://doi.org/10.16922/wje.20.2.8*

gynnwys ysgolion yng Nghymru ac yn Lloegr. Yn dilyn yr ymweliadau strwythuredig hyn roedd yr ysgolion yn arwain sesiynau rhannu a thrafod arferion rheolaeth da yng nghynadledd flynyddol CYDAG. Ochr yn ochr â hynny, rôl bwysig arall y chwaraeodd CYDAG oedd ymateb i ddogfennaeth ymgynghorol gan y llywodraeth a chyrff cenedlaethol eraill er mwyn ceisio sicrhau bod buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu cynnwys wrth i bolisïau gael eu datblygu a'u gweithredu yn genedlaethol. Trefnodd y gymdeithas gyfarfodydd rheolaidd gyda gweinidogion addysg, uwch weision sifil, arweinwyr cyrff megis Estyn, CBAC a Cymwysterau Cymru. Prif nod y cyfarfodydd hyn oedd hybu deialog adeiladol gyda'r cyrff hyn er mwyn ehangu dealltwriaeth o sut mae polisïau yn effeithio ar y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ceisiwyd hefyd gynnig cymorth i'r cyrff i gyfathrebu gydag aelodau CYDAG ac i fynychu cyfarfodydd un-dydd a'r gynhadledd flynyddol er mwyn cyfathrebu'n uniongyrchol â'r aelodau. I'r un perwyl mae rhannau olaf yr erthygl hon yn nodi'r materion sydd yn gwasgu ar dimau rheolaethol ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae nifer o'r rhain yn gyffredin i'r gwasgfeydd sydd yn wynebu pob ysgol uwchradd beth bynnag bo cyfrwng yr addysgu ond maent o berthnasedd arbennig yn y sector Cymraeg oherwydd natur arbennig y sector hwnnw.

**Geiriau allweddol:** Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG), sector uwchradd, heriau.

## *Cyflwyniad*

Ceisia'r erthygl hon osod, yn y lle cyntaf, gefndir a chyd-destun y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gan edrych ar y rhychwant eang o ysgolion sy'n dod o dan y teitl 'ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog' a'r gefnogaeth a gawsant gan CYDAG. Hefyd, amlinellir yr heriau penodol sy'n wynebu'r ysgolion hyn. Er bod yr heriau hyn yn debyg i'r rhai a wynebir gan y sector ysgolion cyfrwng Saesneg, mae yna bwysleisiau gwahanol. Y meysydd penodol a edrychir arnynt yw staffio, adnoddau, addysgeg, cwricwlwm, datblygiad proffesiynol parhaol, addysg cychwynnol athrawon a chyfathrebu. Cyfeirir hefyd at sut yr ymddengys yr heriau sy'n debygol o godi o'r broses ddatblygol o ran llunio a darparu'r cwricwlwm newydd a ddaw yn sgil adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yr



07 CYDAG WJE 20/2.indd 139 23/10/2018 09:27

Athro Donaldson ynghyd â'r cynllun iaith sydd i gefnogi nod y llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

## *Cefndir*

Agorwyd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yn 1956 pan agorodd drysau Ysgol Glan Clwyd. Ers hynny, agorwyd llawer o ysgolion cyffelyb. Mae yna hefyd nifer sylweddol o ysgolion a bennir yn ysgolion dwyieithog. Roedd teitlau ysgolion fel rhai cyfrwng Cymraeg neu fel rhai dwyieithog yn deitlau oedd yn aml yn annelwig yn y gorffennol o ran union natur y ddarpariaeth o ran y cyfrwng dysgu. Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.*[1] Pwrpas y ddogfen oedd 'amlinellu diffiniadau a chategorïau ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysgu a dysgu ym mywyd bob dydd yr ysgol'. Yn ôl rhestr gyfredol y llywodraeth mae yna 21 o ysgolion cyfrwng Cymraeg a 34 o ysgolion dwyieithog. Rhennir y 34 i dri chategori: mae 18 yng nghategori A, 12 yng nghategori B a 4 yng nghategori C. Hefyd, ymhlith y 151 o ysgolion Saesneg eu cyfrwng nodir bod 6 ohonynt yn ysgolion lle mai Saesneg yw'r cyfrwng yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Mae nifer a natur y categorïau o ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn arddangos yr amrywiaeth darpariaeth sy'n bodoli ar draws y 55 ysgol o dan y diffiniadau hyn. Hefyd dylid nodi sefydlu ysgolion 'drwodd', sef, ysgolion sy'n addysgu plant a disgyblion trwy ystod oed y cynradd a'r uwchradd. Mae 7 allan o'r 11 o'r rhain yn ysgolion dwyieithog.

O edrych yn ôl ar y cyfnod er agor yr ysgol Gymraeg gyntaf yn 1956 tan heddiw mae'r twf yn y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn syfrdanol. Ar y cychwyn, pan agorwyd ysgolion cyfrwng Cymraeg un wrth un, roedd yr ysgolion hynny yn ynysig am eu bod yn arwahanol. I ymateb i hynny sefydlodd yr ysgolion gysylltiadau er mwyn cynnig cyd-anogaeth a chyd-gynhaliaeth i'w gilydd. Dyma ddywed Mr Gwilym Humphreys, prifathro cyntaf Ysgol Rhydfelen pan agorodd yn 1963, yn ei gyfrol hunan-fywgraffiadol, *Heyrn yn y Tân*:

> Cysylltiad arall y bum yn awyddus i'w hyrwyddo oedd hwnnw rhwng yr ysgolion uwchradd Cymraeg â'i gilydd. Yn 1962, pan agorodd Rhydfelen, dim ond dwy ysgol uwchradd benodol Gymraeg arall oedd mewn bodolaeth – ysgolion Glan Clwyd (1956) a Maes Garmon (1961) a byddai Haydn Thomas, prifathro Glan Clwyd (a'i olynydd, Desmond Healey), Elwyn Evan, prifathro Maes Garmon, a



07 CYDAG WJE 20/2.indd 140 23/10/2018 09:27

> minnau mewn cyswllt parhaus. Ym Mehefin 1963, aeth holl staff Rhydfelen i Ysgol Glan Clwyd yn y Rhyl i gyfarfod ag athrawon y ddwy ysgol yn Sir y Fflint ac yno y ffurfiwyd Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymraeg i ganolbwyntio'n bennaf bryd hynny ar y broblem o gael gwerslyfrau Cymraeg. (Humphreys, 2000: 79)

Dros y blynyddoedd esblygodd y gymdeithas sylfaenol yna i fod yn Gymdeithas Prifathrawon dros Addysg Gymraeg (CPDAG) ac yna, yn ddiweddarach, i fod yn Gymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg (CYDAG). Bellach y mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd a bennir yn rhai cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gan ddiffiniad Llywodraeth Cymru yn aelodau o CYDAG (uwchradd). Nid corff undebol yw CYDAG ond corff sy'n cefnogi ac yn ceisio sicrhau tegwch ar gyfer agweddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y ddarpariaeth addysg yng Nghymru. Dylid nodi fod adran gynradd o CYDAG bellach wedi'i sefydlu gydag oddeutu 200 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn perthyn iddi. Ar gyfer yr erthygl hon y ffocws yw'r sector uwchradd.

O'r cychwyn fe gyflawnodd CPDAG, ac yna CYDAG, nifer o swyddogaethau i gynnal ei haelodau ac i gynnal deialog gydag nifer o gyrff ar lefel genedlaethol. Ar ran yr aelodaeth cynhaliwyd amryw o gyfarfodydd datblygiad proffesiynol un-dydd ar lefel genedlaethol ar gyfer uwch rheolwyr. Pan gyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 1989 cynhaliwyd cyfarfodydd i ddehongli sut i weithredu'r gofynion cwricwlaidd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, lle roedd dwy iaith graidd. Ystyriwyd goblygiadau newydd y cwricwlwm, megis dylunio a thechnoleg, oedd yn peri her o ran trefniadaeth a staffio. Cynhaliwyd digwyddiadau tebyg pan gyflwynwyd newidiadau a gofynion stadudol eraill megis agweddau o'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Ymhen amser, penododd CYDAG uwchradd swyddog proffesiynol rhan-amser i gyd-gordio a threfnu'r cyfarfodydd a'r cyrsiau proffesiynol hyn. Am nifer o flynyddoedd ceisiwyd cynnig cefnogaeth ar gyfer y pynciau craidd bob dwy flynedd a'r pynciau allgraidd dros gylch amser o ryw tair blynedd. Hefyd, ers blynyddoedd cynnar CPDAG cynhaliwyd cynhadledd flynyddol breswyl. Ffocws y cynadleddau hyn oedd y materion cyfredol oedd o ddiddordeb i'r aelodaeth. Defnyddiwyd y cynadleddau hefyd er mwyn gwahodd uwch swyddogion y llywodraeth a chyrff megis yr arolygiaeth, CBAC ac eraill. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau dderbyn mewnbwn gan y rhai oedd yn arwain blaengareddau ar lefel genedlaethol tra, ar yr un pryd, yn caniatáu deialog rhwng y cyrff hynny a'r gymdeithas. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyfyngwyd y gynhadledd

flynyddol i achlysur un dydd gan fod uwch rheolwyr a phenaethiaid yn ei chael yn gynyddol anodd i fedru mynychu am ddau ddiwrnod. Fel y nodir mewn mannau eraill o'r erthygl hon, symptom yw hynny o'r wasgfa gynyddol sydd ar athrawon ar bob lefel gan gynnwys rheolwyr canol ac uwch yn ein hysgolion.

Dros y degawd diwethaf, bu'n rhaid i CYDAG ailfeddwl y ffordd orau o gefnogi ysgolion. Cafodd chwalu timau ymgynghorol yn yr awdurdodau lleol effaith andwyol ar godi safonau yn y pynciau allgraidd. Am gyfnod bu CYDAG yn denu oddeutu 25 o'u haelodau i bob cwrs a gynigiwyd ar amryfal destunau mewn amrediad o bynciau allgraidd, megis cerdd, celf, hanes, daearyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth. Roedd yr arfarniadau gan y cyfranogwyr yn hynod gadarnhaol. Ond ers y wasgfa ariannol o safbwynt rhyddhau athrawon, mae CYDAG wedi gorfod canolbwyntio yn hytrach ar gefnogi agweddau rheolaethol o fewn ysgolion.

Tua deng mlynedd yn ôl roedd angen sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel waelodlin o wybodaeth am beth oedd eu swyddogaeth a'r hyn a ddisgwylid ganddynt, er enghraifft sut i ddadansoddi data yn effeithiol, sut i hunan-arfarnu ar lefel ysgol ac adran ac yna gynllunio gwelliannau. Fe lenwodd CYDAG fwlch amlwg wrth i gonsortia ac awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru geisio datblygu strwythurau newydd i reoli ansawdd mewn ysgolion. Ceisiwyd argyhoeddi swyddogion yng Nghaerdydd mai consortia rhithiol i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru fyddai'r ateb. Ni ddaeth dim o hynny ac yn ddiweddarach ceisiodd CYDAG fod yn fwy dyfeisgar. Creda swyddogion y gymdeithas bod angen i ysgolion nid yn unig edrych ar eu sefyllfa eu hunain ond codi eu pennau 'tua'r mynyddoedd'. I'r perwyl hwn rhoddwyd cyfle i aelodau ymweld ag ysgolion oedd wedi eu hadnabod yn rhai 'rhagorol', yng Nghymru ac yn Lloegr, ac yna cawsant drafod eu profiadau a'u sylwadau mewn cynhadledd flynyddol. Ceisiwyd hefyd cael cyfraniadau gan ysgolion ar faterion llosg megis 'asesu ar gyfer dysgu' ac agweddau ar les disgyblion.

Ar hyd yr amser, bu'r gwahanol gyfarfodydd a chynadleddau, yn ôl asesiadau y rhai a'u mynychodd, yn llwyddiannus iawn. Roedd hynny'n adlewyrchiad o safon uchel y cyfranwyr oedd yn cynnwys cyfranwyr gwadd ond hefyd, ac yn bennaf, mewnbynnau rhagorol gan ysgolion CYDAG oedd mor hael yn rhannu eu harferion da ac yn darparu deunyddiau ardderchog ar gyfer yr aelodau.

Roedd cael diwrnodau datblygu proffesiynol i bob ysgol oedd yn aelod yn galluogi CYDAG i gael cyfraniadau gan CBAC a darparwyr allanol eraill ar gyfer yr holl ysgolion ar yr un pryd. Ond yn ogystal â hyn, byddai



07 CYDAG WJE 20/2.indd 142 23/10/2018 09:27

rhai ysgolion gwasgaredig yn dod at ei gilydd yn fwy lleol i rannu arfer dda. Er enghraifft, mae fforwm y de-ddwyrain yn offeryn gwerthfawr ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yno sydd weithiau'n teimlo'n ynysig tu fewn i'r consortia gyda chymaint o ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Gwireddir y ddihareb 'mewn undeb mae nerth'. Yn fwy diweddar bu i CYDAG y de-ddwyrain fabwysiadu dull o lunio triawdau rhwng tair ysgol ac agor eu drysau yn eu tro i 'ymweliad', neu fel mae rhai yn ei alw, 'arolwg answyddogol', gan gydweithwyr. Yn yr ymweliadau hyn, mae timau rheoli yn gosod gerbron eu cymheiriaid eu dogfennau, mae'r ddau ymwelydd yn ymweld â gwersi, yn cynnal cyfarfodydd gyda staff ar wahanol lefelau ac yn adrodd ar ddiwedd y cyfnod i'r tîm rheoli. Mae'r ysgolion yn ei weld fel ffordd effeithiol o gael barn werthfawr ymarferwyr eraill heb y pwysau sydd yn naturiol yn codi yn sgîl arolygiad gan Estyn. Mae'r drefn hon yn mynd o nerth i nerth.

Yn ogystal â'r gynhaliaeth broffesiynol, agwedd arall, bwysig o waith cenedlaethol CPDAG a CYDAG yw ymateb i ddogfennaeth ymgynghorol Llywodraeth Cymru. Dros y blynyddoedd ceisiwyd gwneud hynny mewn ffordd sydd yn adlewyrchu buddiannau disgyblion, myfyrwyr ac athrawon CYDAG ar draws y sbectrwm eang o ddwyieithrwydd. Ymhlith ymatebion i ddogfennau o'r fath, lleiafrif ohonynt sy'n mynegi persbectif y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac felly bu cyfraniadau CYDAG yn bwysig er mwyn i fuddiannau'r sector gael eu nodi gan y llywodraeth a chyrff cenedlaethol eraill.

I'r un perwyl, ceisiwyd trefnu cyfarfodydd cyson gyda gweinidogion addysg, uwch swyddogion y gwasanaeth sifil, CBAC, Estyn, Cymwysterau Cymru ac eraill er mwyn cynnal deialog adeiladol gyda'r cyrff a sefydliadau hyn.

O bryd i'w gilydd, bu CYDAG hefyd yn lleisio pryderon ei haelodau gerbron gweinidogion, ysgrifennydd cabinet ac uwch swyddogion. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, un o'r materion llosg hynny oedd yr anghyfiawnder nad oedd adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer disgyblion ac athrawon ar yr un pryd ag yr oedd adnoddau cyfrwng Saesneg. Cyfeirir at hynny yn y paragraffau sy'n dilyn.

Felly, dros y blynyddoedd, darparodd CYDAG uwchradd gefnogaeth ymarferol i'w haelodau trwy rannu arferion da yn ymwneud ag addysgu, dysgu ac asesu ar lawr dosbarth ynghyd ag arferion da ar lefel uwch arweinwyr. Ar yr un pryd cefnogwyd ysgolion trwy dynnu sylw at eu buddiannau a'u heriau gyda chyrff ac arweinwyr sefydliadau cenedlaethol.



07 CYDAG WJE 20/2.indd 143 23/10/2018 09:27

*Materion staffio*

Pan sefydlir ysgol o'r newydd, fel yn hanes yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, yr her gyntaf yw penodi athrawon a, chyn hynny, penaethiaid yr ysgolion hynny. Pan gychwynnwyd sefydlu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg doedd neb o'r athrawon a benodwyd wedi derbyn eu haddysg uwchradd nac uwch hwythau trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, roedd yna fentergarwch go iawn yn perthyn i'r arloeswyr hyn.

Niferoedd bychain o athrawon oedd eu hangen i staffio'r ysgolion a agorwyd yn ystod yr 1960au. Yn ei sylwadau ar hanes deng mlynedd gyntaf Ysgol Rhydfelen (Humphreys ac eraill, 1973), nododd Mr Gwilym Humphreys fod llawer wedi ei holi os y cafodd anhawster i benodi athrawon cymwys i'r ysgol yn ystod y cyfnod cynnar hwnnw (1963–73). Dyma beth a gofnododd:

> Yr ateb yn syml yw na chefais fawr o anhawster. Nid oedd nifer yr ymgeiswyr yn arbennig o uchel yn aml (ac eithrio ar gyfer swyddi dysgu Cymraeg fel pwnc, pan geisiai degau bob amser), ond roedd rhywun neu rywrai bob tro gyda fflach yr argyhoeddiad yn eu llygaid yn dod i ateb pob galwad am athro ychwanegol. (1973: 24)

Bellach y mae yna heriau sylweddol a chynyddol er mwyn sicrhau cyflenwad llawn o athrawon cymwys ar draws y cwricwlwm ac erbyn hyn mae yna brinder o ymgeiswyr cymwys mewn nifer o bynciau. Hefyd, niferoedd bychain sy'n ymgeisio am swyddi penaethiaid ysgolion uwchradd yn y sector Cymraeg a dwyieithog. Yn ystod y blynyddoedd 2013, 2014 a 2015, cynhaliodd CYDAG (uwchradd) arolwg o sefyllfa staffio ysgolion CYDAG. Dengys pob un o'r arolygon hynny bod yna brinder mawr o ymgeiswyr ar gyfer swyddi Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd aelodau CYDAG hefyd yn nodi prinder ymgeiswyr cymwys mewn llawer o feysydd eraill. Roedd y patrymau ar gyfer y meysydd hyn yn llai cyson ac yn amrywio yn ôl lleoliad daearyddol yr ysgolion.

Mewn ardaloedd lle y bu twf yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft ar hyd coridor yr M4, bu galw cynyddol am fwy o athrawon i lenwi swyddi. Roedd hwylustod cymudo ar hyd yr M4 yn hwyluso symudiad athro o swydd mewn un ysgol i swydd mewn ysgol arall. Mae'r duedd yma'n dal i greu elfen o ansefydlogrwydd mewn staffio rhai ysgolion tra'n creu angen parhaus am athrawon i ddod i mewn i'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ar yr un pryd, mewn ardaloedd lle mae ysgolion Cymraeg yn gymharol agos i'w gilydd mae yno gystadlu am y nifer bychan



07 CYDAG WJE 20/2.indd 144 23/10/2018 09:27

o athrawon cymwys sydd ar gael mewn pynciau lle mae yna brinder sylweddol yn bodoli. Dengys arolygon CYDAG mai nid ffenomenon yn y de yn unig yw hon ond ei bod hefyd yn digwydd mewn rhai meysydd pwnc mewn ardaloedd yn y gogledd a'r canolbarth.

Mae'r prinder o ymgeiswyr cymwys ar gyfer dysgu Saesneg fel pwnc yn un diddorol o ran y sector Cymraeg a dwyieithog. Un o amcanion creiddiol yr ysgolion hyn yw creu, cynnal a hybu ethos ac awyrgylch Gymreig ac yn enwedig felly pan bo ysgol mewn ardal lle does dim llawer o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gymuned leol. Roedd ymatebion nifer o ysgolion i arolygon CYDAG (2013–15) yn sôn am orfod penodi athrawon Saesneg di-Gymraeg neu gydag ond ychydig iawn o afael ar y Gymraeg er mwyn boddio anghenion y pwnc. Pair hyn densiynau cyffredinol o fewn yr ysgolion hyn o ran cynnal yr ethos Gymraeg ac mae yn creu tensiwn fwy byth os oes angen i'r cyfryw athrawon gymryd rôl fugeiliol fel athro dosbarth.

Cwyd problemau hefyd o fewn ysgolion a'u diffinnir yn ddwyieithog. Yn aml tyfodd y rhain allan o'r ysgolion cyfrwng Saesneg oedd yn bodoli eisoes mewn nifer o drefi, bach a mawr, ar draws y wlad. Pan gyflwynwyd elfennau cyfrwng Cymraeg i mewn i'r ysgolion hyn trwy addysgu rhai pynciau yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, gallai hynny fod, a dal i fod, yn heriol am nad oedd proffil ieithyddol y corff o athrawon yn cyfateb i batrwm cyfrwng gwahanol bynciau.

Un her sy'n deillio o hynny yw sut i ddefnyddio athrawon yn y ffordd orau i foddio'r patrwm cyfrwng tra ar yr un pryd yn gwarchod safonau cyrhaeddiad dysgwyr a phwnc. Gwelir yr un fath o her i weithgaredd rheolaethol pan yn ceisio sicrhau buddiannau gorau dysgwyr pan fod yna brinder athrawon cymwys mewn meysydd craidd megis gwyddoniaeth a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4. Er enghraifft, mae ambell ysgol yn gosod eu hathrawon mathemateg cryfaf gyda grwpiau ym mlwyddyn 10 ac yna'n cofrestru'r grwpiau hynny i sefyll eu harholiadau TGAU yn gynnar ar ddiwedd blwyddyn 10. Yna, ym mlwyddyn 11, defnyddir yr athrawon cryfaf hyn i ddysgu grwpiau eraill o flwyddyn 11 fel eu bod hwythau yn ymelwa o arbenigedd yr athrawon hyn. Canlyniad diffygion cyffelyb wrth geisio sicrhau cyflenwad digonol o arbenigedd ymhlith athrawon yw'r pryder na ellir sicrhau cynnydd llawn o ran cyrhaeddiad disgyblion sydd wedyn yn gollwng pwnc neu bynciau ym mlwyddyn 11.

Er na holwyd hynny yn benodol yn arolygon CYDAG, nodwyd yn yr ymatebion cyffredinol gan ysgolion (a cheir hefyd cadarnhad gan swyddogion CYDAG ar sail eu hadnabyddiaeth o ysgolion y gymdeithas) bod yna brinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid a dirprwyon yn ystod y



07 CYDAG WJE 20/2.indd 145 23/10/2018 09:27

bedair mlynedd ddiwethaf. Yn arolwg hydref 2016 cafwyd amlinelliad mewn un ardal ddaearyddol lle, dros gyfnod o ddeunaw mis, hysbysebodd pum ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg swydd pennaeth. Y nifer o ymgeiswyr a gafwyd ar gyfer y bum swydd yn ôl eu trefn oedd: 1, 1, 2, 0 a 2. Mewn ardal arall yn ystod y cyfnod diweddar hwn cafwyd cyfanswm o ddim ond naw cais ar gyfer chwech swydd pennaeth uwchradd. Hefyd tua'r un adeg, roedd pump o ysgolion dwyieithog mewn ardal arall wedi gorfod penodi penaethiaid gweithredol dros dro (rhai am gyfnod o hyd at flwyddyn neu hirach) oherwydd y diffyg o ymgeiswyr cymwys ar gyfer swyddi penaethiaid. Mae'r enghreifftiau yhn yn dangos dwyster y sefyllfa a'r her sy'n wynebu rheolaeth ac arweinyddiaeth yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Adroddodd sawl pennaeth mewn ymateb i'r arolygon bod yna brinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi dirprwyon. Felly, mae yna her arbennig o ran paratoi, annog a chynnal athrawon rheolaeth canol ac uwch i ddatblygu'r sgiliau, cymwyseddau, yr hyder a'r awydd i godi eu gorwelion tuag at lenwi swyddi rheolaethol uwch.

Ar hyn o bryd mae'r broses o lunio cwricwlwm newydd ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Nghymru ar y gweill. Mae'n profi i fod yn dasg heriol iawn i'r ysgolion a benodwyd yn 'ysgolion arloesol' a'u staff sydd wedi ymroi i ymrafael â'r her. Datganodd yr adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* weledigaeth uchelgeisiol a chysyniadol heriol ar gyfer natur y cwricwlwm newydd. Nid y lleiaf o'r heriau yw gweddnewid y prosesau addysgu a dysgu, a rôl a statws asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu. Eir i'r afael â'r her mae hyn yn ei osod i bob ysgol a phob athro yng Nghymru gan gynnwys y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn adran isod o'r erthygl hon.

Fodd bynnag yn ystod y ddwy neu dair mlynedd ddiwethaf adrodda penaethiaid ysgolion Cymraeg a dwyieithog bod staff yn cael eu galw allan i ystod o gyfarfodydd niferus. Nodwyd hynny fel un o'r ymatebion cyffredinol i arolygon staffio CYDAG 2013–15. Mae yna ddau sylw i'w wneud am hynny, sef, yn gyntaf, bod ysgolion yn profi anawsterau mawr i ddod o hyd i athrawon cyflenwi cymwys sy'n medru'r Gymraeg. Mae chwilio am yr athrawon cyflenwi hyn yn dasg feichus i ysgolion ac yn sugno dogn sylweddol o amser rheolwyr. Yr ail sylw yw bod tynnu allan athrawon ar y fath raddfa yn torri ar draws llif yr addysgu a dysgu ar lawr dosbarthiadau cyfredol. Hynny yw, mae'n cael sgil effaith andwyol ar safonau'r addysg sy'n digwydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd.

Ni chyfyngir yr angen i sicrhau staff digonol i'r angen am athrawon yn y sector Cymraeg a dwyieithog. Mae hefyd angen niferoedd digonol o



07 CYDAG WJE 20/2.indd 146 23/10/2018 09:27

gynorthwywyr dysgu a staff eraill megis technegwyr ac ati sydd yn gymwys i'w swyddi ac sydd hefyd yn medru'r Gymraeg. Nid yw hynny yn rhywbeth i'w gymryd yn ganiataol ac mae llawer o ysgolion yn gorfod penodi staff atodol o'r fath sydd yn berchen ar y cymwyseddau perthnasol ond nad sy'n medru'r Gymraeg. Mae hyn eto yn creu tensiwn o ran atgyfnerthu ethos Gymraeg yr ysgolion hynny.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf dioddefodd ysgolion doriadau i'w cyllidebau. Mewn llawer o ysgolion o bob cyfrwng arweiniodd hynny at dorri lefelau staffio. Mae'r prosesau mae'n hysgolion yn mynd drwyddynt i gyflawni'r toriadau hyn yn gosod straen ar y gweithlu cyfan. Nid yw hynny'n atgyfnerthu'r ewyllys i staff ymgymryd â heriau gweithredu newidiadau a osodir gan gyflwyno cymwysterau newydd ac ati. Mae yna wrthdynnu cymhleth rhwng prinder athrawon ar gyfer nifer o feysydd pwnc ar un llaw a'r angen i dorri staff ar y llaw arall. Hefyd, gyda datblygiad y cwricwlwm newydd ymhell o gyrraedd man lle mae sicrwydd o union strwythur a natur y cwricwlwm newydd, gallai ysgolion wneud toriadau staffio y gallai fod yn angenrheidiol o fewn y dair neu bedair mlynedd nesaf. Mae'r tensiynau hyn yn bodoli mewn ysgolion beth bynnag yw ei polisi cyfrwng addysgu a dysgu ond oherwydd bod y pwll o athrawon potensial ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn llai na'r pwll sydd ar gael i ysgolion Saesneg eu cyfrwng, mae'r tensiynau hyn yn fwy arwyddocaol ynddynt hwy.

### *Adnoddau*

> Ym Mehefin 1963, aeth holl staff Rhydfelen i Ysgol Glan Clwyd yn y Rhyl i gyfarfod ag athrawon y ddwy ysgol yn Sir y Fflint [Glan Clwyd a Maes Garmon] ac yno y ffurfiwyd Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymraeg i ganolbwyntio'n bennaf bryd hynny ar y broblem o gael gwerslyfrau Cymraeg. (Humphreys, 2000: 79)

Dyna sylw Mr Gwilym Humphreys yn ei gyfrol yn amlinellu hanes cychwynnol Ysgol Rhydfelen. O'r cychwyn cyntaf, felly, roedd arweinyddiaeth yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llafurio i ddarparu addysg o'r safon orau ond heb yr arfau oedd gan yr ysgolion cyfrwng Saesneg, sef, adnoddau addas a safonol ar gyfer eu disgyblion a'u hathrawon. Er bod yna welliant sylweddol wedi digwydd dros y blynyddoedd, deil yna annhegwch ac anghyfiawnder sylfaenol am na ddarperir yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yn gydamserol â'r adnoddau cyfrwng Saesneg. Bu hynny'n wir ar hyd yr



07 CYDAG WJE 20/2.indd 147 23/10/2018 09:27

hanner canrif ers sefydlu Ysgol Glan Clwyd ond gosodwyd y chwyddwydr yn ffyrnicach fyth ar yr annhegwch gyda chyflwyniad toreth o gymwysterau newydd dros y blynyddoedd diwethaf. Amlygodd yr amserlen afresymol a osodwyd ar gyfer cyflwyno'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd o Fedi 2015 pa mor annigonol oedd y rhag-gynllunio i sicrhau caffael adnoddau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr yn hollol gydamserol. Roedd yna fwlch o o leiaf chwech mis ac yn aml hyd at flwyddyn neu fwy rhwng ymddangosiad deunydd cyfrwng Saesneg a'r deunydd cyfatebol yn y Gymraeg.

Tynnodd CYDAG sylw cyhoeddus at yr anghyfiawnder hwn a'r diffyg triniaeth cyfartal a ddylai fodoli rhwng darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mewn ymateb, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Cabinet uwch-gynhadledd i ystyried y mater yn Ebrill 2017. Erbyn amser llunio'r erthygl hon, prin yw'r arwyddion y bu gweithredu yn sgil y syniadau adeiladol a chyffrous a godwyd yn yr uwch-gynhadledd. Ymhlith y syniadau hynny roedd yna awgrymiadau radical o feithrin gallu gweisg Cymru i fedru cydweithio i awduro a chynhyrchu deunyddiau addysgol aml-lwyfan i wasanaethu'r cwricwlwm newydd pan ddaw hwnnw i fodolaeth. Un o'r egwyddorion a leisiwyd gan rai oedd yr angen i warantu y byddai'r deunydd addysgu a'r gynhaliaeth broffesiynol i athrawon wedi'u cwblhau ac yn eu lle o leiaf flwyddyn cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar lawr dosbarth. Petai hynny'n cael ei osod yn ei le, yna byddai'r isadeiledd yn gadarnach o ran sicrhau bod addysgu a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Byddai hynny'n lleihau un o'r heriau a'r gwasgfeydd a osodir ar dimau rheolwyr uwch a rheolwyr canol ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn wir, mae diffyg argaeledd adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg fisoedd lawer, hyd at flwyddyn neu fwy, yn hwyrach na'r deunyddiau cyfrwng Saesneg wedi bod yn achos o annhegwch ac anghyfiawnder sylfaenol i ddisgyblion ac athrawon a ddewisodd astudio ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Un agwedd heriol sy'n wynebu'r gyfundrefn addysg, boed y cyfrwng yn Gymraeg, Saesneg neu ddwyieithog, yw'r angen i gynhyrchu mwy o bobl a all gynllunio a chreu yr adnoddau digidol aml-lwyfan sydd eu hangen fel rhan o osod y cwricwlwm newydd yn ei le. Er, efallai, nad yw hynny'n ffactor sy'n effeithio'n uniongyrchol ar lawr y dosbarth, y mae yna wir angen i feithrin ar fyrder yr arbenigedd dwyieithog i allu gosod y deunyddiau gerbron dysgwyr ac addysgwyr. Hefyd, wrth sgwrs, gosodir her sylweddol arall i dimau rheolaethol ac arweinyddiaeth o sut i sicrhau bod gan eu hathrawon a chynorthwywyr dysgu y sgiliau angenrheidiol i



07 CYDAG WJE 20/2.indd 148 23/10/2018 09:27

ddefnyddio'r dulliau ac adnoddau digidiol er budd mwyaf eu disgyblion. Cwyd, hefyd, y cwestiwn a oes gan ein hysgolion y cyfarpar digidol o ran maint, niferoedd ac ansawdd digonol i sicrhau llwyddiant y deunyddiau a dulliau digidol ac i warantu argaeledd rhwydd ar gyfer pob dysgwr.

### *Addysgeg*

Nodweddwyd y proffil staffio cynnar mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg gyda brwdfrydedd a'r awch i arbrofi trwy dorri tir a chwysi newydd gan mai nhw oedd y garfan gyntaf o athrawon i osod addysg cyfrwng Cymraeg ar y map a phrofi bod dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o leiaf mor llwyddiannus â dysgu trwy gyfrwng y Saesneg. Dros y blynyddoedd ac ar wahanol adegau clywir honiadau y naill ffordd a'r llall am fanteision addysg ddwyieithog ac amlieithog. Clywyd hefyd am sefyllfaoedd o wledydd eraill, Canada er enghraifft, lle roedd yna dystiolaeth bod addysg ddwyieithog yn arwain at fanteision ehangach a mwy cyffredinol i'r dysgwyr. Er gwaethaf hynny, prin yw'r enghreifftiau lle'r aethpwyd i'r afael gyda gosod rhaglen genedlaethol bwrpasol yng Nghymru i osod fframwaith a sail addysgeg gadarnach ar gyfer addysgu'n dwyieithog ac i fanteisio ar gaffael ar ddwy neu fwy o ieithoedd i gryfhau dysgu mwy cyffredinol y dysgwr.

Yn y cyhoeddiad diweddar gan y llywodraeth (*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*) gosodir ffocws cenedlaethol ar yr angen i symud ysgolion ar hyd gontinwwm darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod mwy o ddysgwyr yn gwneud defnydd o'r Gymraeg y tu allan i furiau'r ystafell Gymraeg o fewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn ogystal ag ysgolion dwyieithog. Mae'n amlwg bod hynny yn gofyn am osod isadeiledd addysgeg gadarn ar y ffordd orau i gyflwyno darpariaeth ddwyieithog ym mhob un ysgol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ieithyddol. Ond nid yn unig yn y sector dwyieithog a chyfrwng Saesneg mae angen hynny. Mae ei angen hefyd ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod yr addysgeg a'r dysgu ar gyfer y dysgwyr dwyieithog hyn hefyd mor effeithlon ag y gall fod. Dylid datblygu modelau pedagogaidd i feithrin yr awch a'r gallu i ddysgu trydydd a phedwerydd iaith a mwy. Yn ei adroddiadau diweddar, ar gyfer 2017 a 2018, noda Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru fod addysgu yn un o'r agweddau gwannaf o fewn y gyfundrefn addysg. O osod hynny ochr yn ochr â'r uchelgais i Gymreigeiddio pob ysgol a chadarnhau seiliau addysgu, byddai o gymorth mawr i dimau arweinyddiaeth

i allu troi at fodelau cadarn o ran addysgu trwy gyfrwng dwy neu mwy o ieithoedd.

Fel y cyfeiriwyd ato yn barod, gosoda adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* heriau arbennig o ran chwyldroi prosesau addysgu a dysgu gan gynnwys yn greiddiol dulliau asesu ffurfiannol grymus ar gyfer hybu dysgu. Bydd timau arweinyddiaeth o dan bwysau i wneud a gwireddu hyn. I wneud hynny mae angen, ar lefel genedlaethol, llunio modelau i osod seiliau cadarn o ran addysgeg i arfogi pob athro a chynorthwywyr dysgu gyda hyder a sgiliau o'r newydd. Dylai'r modelau ynghyd â'r gynhaliaeth broffesiynol angenrheidiol fod yn eu lle ac wedi eu cwblhau ar gyfer pob athro o leiaf blwyddyn cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar lawr dosbarth. O ran y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog bydd yn rhaid sicrhau bod hyn oll ar gael yn y Gymraeg i bawb sydd ei angen ar yr un pryd ac i'r un safon a'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Ar sail egwyddor, ni ddylid cychwyn prosesau o'r fath trwy gyfrwng y Saesneg tan bod yn union yr un ddarpariaeth yn barod i'w chyflwyno trwy'r Gymraeg (neu i'r gwrthwyneb os byddai'r ddarpariaeth Gymraeg yn barod yn gyntaf).

## *Cwricwlwm*

O bryd i'w gilydd clywir sylwadau, yn aml o'r sector cyfrwng Saesneg, bod cynnwys y Gymraeg yn y cwricwlwm yn gwasgu elfennau eraill o'r neilltu. Mae angen gosod yn glir nad yw hynny o anghenraid yn wir gan fod yna, dros y blynyddoedd, fodelau cwricwlaidd yn y sector Cymraeg a dwyieithog sy'n cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg fel dau bwnc craidd ac sydd yn dal i gynnig cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol cystal ag unrhyw fodel yn y sector Saesneg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gosodwyd gwasgedd sylweddol ar allu ysgolion o bob cyfrwng i gynnig cwricwla eang, cytbwys a pherthnasol i drwch o'u disgyblion gan yr orfodaeth i gynnwys arlwy o 30 pwnc gan gynnwys 5 galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4. Ond nid sgil effaith bod y Gymraeg yn bwnc gorfodol yw hynny.

Fodd bynnag, gosododd y rheidrwydd i gynnig arlwy o 30 pwnc wasgedd ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddod o hyd i bartneriaid addysgol a allai gyflenwi cyrsiau mewn meysydd newydd, ychwanegol, gan wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Gosododd hyn heriau sylweddol gerbron timau arweinyddiaeth o fewn y sector oedd yn ychwanegol i'r heriau a wynebai ysgolion yn y sector Saesneg. Mae angen cadw hyn



07 CYDAG WJE 20/2.indd 150 23/10/2018 09:27

mewn cof wrth deithio tuag at y cwricwlwm newydd a fframwaith adeiledd y cwricwlwm hwnnw. Bydd angen sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr yn ddiwahân o'r cyfrwng dysgu yn ogystal â ffactorau megis lleoliad daearyddol mewn ardaloedd trefol a gwledig ac ati.

### *Datblygiad proffesiynol parhaol*

Cyfeiriwyd at hyn ar gychwyn yr erthygl hon. Mae'r heriau y bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn ei greu yn rhai sylweddol ar draws holl ysgolion Cymru. Gwasgedd ychwanegol ar y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer rhai meysydd yw dod o hyd i ffynonellau datblygiad proffesiynol o ansawdd priodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Un ffactor sydd ynghlwm â hyn yw lleoliad ysgolion o fewn y gwahanol awdurdodau oherwydd y patrwm anwastad sydd ar gyfer argaeledd cynhaliaeth broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gosoda hyn wasgfeydd ar rai timau rheoli a phenaethiaid wrth geisio sicrhau darpariaeth cymwys ar gyfer eu staff. Effeithir hefyd ar reolwyr canol mewn meysydd pwnc neu ardaloedd dysgu a phrofiad a ddaw yn sgil cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Ymddengys bod rôl i'r pedwar consortiwm a'r llywodraeth ar lefel cenedlaethol i osod darpariaeth sydd yn medru boddio anghenion datblygiad proffesiynol staff ym mhob ysgol, beth bynnag bo'r cyfrwng a chan wneud hynny ar delerau hollol gyfartal o ran argaeledd, ansawdd a chost.

### *Atebolrwydd*

Yn ddi-os un o'r prif ffactorau sy'n rhwystr i ddenu mwy o bobl i ymgeisio am swyddi rheolaeth uwch a, hefyd, penaethiaid pynciau craidd yw'r gwasgedd i ymateb i ofynion atebolrwydd parhaus sy'n dod o aml gyfeiriadau. Mae'r gyfundrefn mesur perfformiad a chynnydd wedi cyrraedd pwynt lle mae'n andwyol i wella safonau yn un o'r prif feysydd sydd angen datblygu, sef, safonau addysgu a dysgu ar lawr dosbarth. Ers sawl blwyddyn telir mwy o sylw i, a rhoddir mwy o bwys ar ddangosyddion cyrhaeddiad ac, o gymharu â'u perthynas â'r ansawdd prosesau addysgu a dysgu ar lawr dosbarth, nid ydynt yn adlewyrchu perfformiad yn yr ystod lawn o brofiadau a chyflawniad dysgwyr.

O safbwynt y sector cyfrwng Cymraeg, bu sawl enghraifft o ymgynghorwyr proffesiynol o'r tu allan yn ymweld ag ysgolion cyfrwng Cymraeg



07 CYDAG WJE 20/2.indd 151 23/10/2018 09:27

pan nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg o gwbl neu yn annigonol i lawn ddeall beth y maent yn ei weld wrth arfarnu. Sut all swyddogion o'r fath ddod i farn broffesiynol gytbwys a deallus ar sail wir ddirnadaeth o'r hyn y maent yn ei weld yng ngwaith dysgwyr neu o fewn ystafelloedd addysgu? Sut allant sefydlu hygrededd yn eu barn am safonau proffesiynol heb sôn am estyn cymorth i'r ysgolion ar sut i godi safonau?

Rhaid sefydlu rhwydwaith o ymgynghorwyr sy'n hollol gymwys i gynnig y gwasanaethau hyn i ysgolion ar draws Cymru er mwyn cefnogi pob ysgol yn ddiwahân beth bynnag yw ei pholisi cyfrwng.

Mater a fu o gonsýrn i nifer o benaethiaid y sector Cymraeg a dwyieithog yw'r modd yr ymdrinnir â'r Gymraeg o fewn y dangosyddion perfformiad. Yn yr ysgolion hyn mae yna fuddsoddiad cwricwlaidd i gyflwyno dwy iaith graidd. Arweinia hynny at rymuso galluoedd dwyieithog y disgyblion ac mae gwneud hyn wedi cyfrannu at yr ymdrechion i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Cymhwysedd arall a ddatblygir yn yr ysgolion hyn yw y gallu i drawsieithu. Yn rhannol gorfodir hynny gan y diffyg adnoddau cydamserol a gyfeirir ato mewn man arall yn yr erthygl hon oherwydd bod angen medru trawsieithu er mwyn defnyddio adnoddau Saesneg mewn cyd-destun addysgol Cymraeg. Mae natur yr addysgu a dysgu yn cymell y gallu i fedru troi o un iaith i'r llall yn ystod yn broses ddysgu. Yng nghyd-destun creu miliwn o siaradwyr efallai ei bod yn bryd i gydnabod yr allbwn ieithyddol pwysig hwn trwy gydnabod ac adeiladu dangosydd perfformiad sy'n fesur o feithrin dwyieithrwydd ymhlith y corff o ddysgwyr.

Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu, mae yna gyfle i ystyried yr elfen hon o lythrennedd deuol o fewn dyluniad y cwricwlwm a hefyd i Estyn ystyried rhoi mwy o ffocws ar hyn yn y fframwaith arolygu gan y bydd angen rhyw fath o fesur llwyddiant wrth fonitro yr ymdrechion i greu miliwn o siaradwyr.

## *Cyfathrebu*

Un elfen bwysig o swyddogaeth timau arweinyddiaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yw eu strategaethau a'u gweithdrefnau cyfathrebu gyda chynulleidfa eang sy'n cynnwys eu staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae heriau tebyg, os nad mwy, yn wynebu ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau aml-ethnig ac amlieithog. Golyga'r gofynion ieithyddol (dwyieithog) bod angen sicrhau bod holl gyfryngau cyfathrebu – ar lafar a



07 CYDAG WJE 20/2.indd 152 23/10/2018 09:27

thrwy dogfennau, y wê, negeseuon testun ac e-bost, ac ati – fod ar gael yn brydlon yn y ddwy iaith yn erbyn llinellau amser tynn. Golyga hyn gostau o ran amser i gyfieithu a chost oherwydd cynhyrchu dogfennaeth/deunydd yn y ddwy (neu mwy) o ieithoedd. Gall hyn gynnwys darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd a dulliau o gynhyrchu dogfennau yn y dwy iaith. Yn aml, oherwydd gwasgfeydd cyllidol, ymgymerir â'r gwaith yma o gyfieithu deunyddiau cyfathrebu gan staff yr ysgol gan gynnwys, yn aml, aelodau'r tîm arweinyddiaeth. Roedd yna gyfnod pan cydnabuwyd hyn fel elfen o'r fformiwlâu dosbarthu cyllidebau o fewn rhai siroedd. Gwelir llai o hynny erbyn hyn er bod yr angen am ddarparu strategaeth gyfathrebu ddwyieithog yn dal yn elfen bwysig o waith ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## *Edrych tua'r gorwel*

Fel y nodwyd uchod mae llawer o newidiadau sylweddol ar y gweill a fydd yn herio'r gyfundrefn addysg yn Nghymru ar draws y sbectrwm cyfrwng. Y ddwy brif elfen, o bosib bydd cyflwyniad y cwricwlwm newydd a cyflawni'r cynllun gweithredu i anelu tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr.

Un o'r prif elfennau fydd ei angen o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llawn fydd sicrhau bod y deunyddiau cwricwlaidd a'r gynhaliaeth proffesiynol wedi'u cwblhau a'u rhoi yn eu lle o leiaf flwyddyn cyn y cyflwynir y cwricwlwm ar lawr dosbarth. Golyga hynny bod angen gwarantu na ryddheir unrhyw adnoddau, beth bynnag eu natur na'u cyfrwng, tan fod y cyfan ar gael i safon yn y ddwy iaith.

O fewn datblygiad y cwricwlwm mae ystyriaeth arwyddocaol yn cael ei roi i lunio un rhaglen astudio ar gyfer y Gymraeg gan ddileu y rhaniad rhwng mamiaith ac ail iaith. Bu CYDAG yn gwasgu am ddatblygu continwwm o gaffael y Gymraeg ers dros ugain mlynedd. Felly, tra'n croesawu'r datblygiad sydd ar y gweill, mae gan benaethiaid y sector Cymraeg a dwyieithog rhai pryderon ynglŷn â sut y gwneir hyn. Yn gyntaf, rhaid i unrhyw ddiwygiadau fedru diogelu a gwarantu cynnal safonau uchel o ran y Gymraeg ar begynau uchaf y rhychwant cyrhaeddiad, sy'n cyfateb i safonau mamiaith TGAU a Safon Uwch. Yn ail, deellir bod ystyriaeth yn cael ei roi i osod cwricwlwm y Gymraeg ar strwythur a seilir ar y fframwaith ieithoedd Ewropeaidd. Os mabwysiadir hynny dylid hefyd ystyried gosod y cwricwlwm Saesneg a phob iaith fodern yn erbyn



07 CYDAG WJE 20/2.indd 153 23/10/2018 09:27

yr un fframwaith fel bod statws ac is-adeiledd cyffredin i'r holl ieithoedd o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru.

O ran cynhyrchu miliwn o siaradwyr, mae yna sensitifrwydd y gallai'r nod o Gymreigeiddio pob ysgol ar hyd continwwm danseilio ac erydu'r gwaith y mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei gyflawni gan y gallai rhai carfannau o rieni mewn rhai ardaloedd fod o'r farn bod y ddogn o'r Gymraeg a Chymreictod y byddai ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn eu cynnig, wrth iddynt symud ar hyd y continwwm, yn ddigonol i'w plant nhw. Hynny yw, gallai arwain at dynnu dysgwyr allan o'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a, thrwy hynny, danseilio bwriad creiddiol y llywodraeth o gynhyrchu miliwn o siaradwyr a all gyfathrebu trwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn bryder sylweddol i dimau rheoli ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Wrth gwrs, mae llawer o newidiadau eraill ar y gweill, er enghraifft gweddnewid strwythur y gyfundrefn a'r prosesau sy'n ymwneud a boddio anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r newidiadau niferus eraill hyn yn digwydd ochr yn ochr â datblygiad y cwricwlwm newydd a gosod isadeiledd er mwyn cychwyn ar y daith o'r presennol i gynhyrchu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Un o'r prif adnoddau sydd ei angen ar bob ysgol, beth bynnag yw cyfrwng y dysgu, yw amser o ansawdd digonol i sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu yn deall, yn gallu cynllunio ac yna gweithredu'r newidiadau yn effeithlon gyda'r nod clir o geisio codi safonau addysg Cymru ar lefel dysgwyr unigol. Mae'r diffyg amser a'r gwasgedd gwaith mae hynny'n ei greu yn gosod rhwystr arall i recriwtio mwy o athrawon, ac yn enwedig athrawon sy'n medru addysgu yn y sector Cymraeg a dwyieithog. Mae hefyd yn ei gwneud yn llai atyniadol i ddenu mwy o athrawon cymwys i anelu am swyddi rheolaeth ac arweinyddiaeth ganol ac uwch gan gynnwys mwy o ymgeiswyr ar gyfer swyddi penaethiaid ysgol.

## *Diweddglo*

Yn yr erthygl hon tynnwyd sylw at nifer o wasgfeydd sydd hefyd yn bryderon i'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- prinder athrawon ar draws y cwricwlwm ac yn enwedig mewn rhai meysydd megis mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg;
- y nifer fechan o ymgeiswyr ar gyfer swyddi uwch reolwyr a phenaethiaid;

- gwaredu'r anghyfiawnder sylfaenol o fethu â darparu deunyddiau dysgu ac addysgu yn hollol gydamserol yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- datblygu medrau i greu, datblygu a darparu cwricwlwm digidol ar draws y cwricwlwm;
- datblygu modelau addysgeg i sicrhau bod yr addysgu a dysgu dwyieithog o'r safon orau posibl ar draws holl ysgolion Cymru. Mae hyn yn berthnasol i'r trwch o ysgolion sydd yn y sector uwchradd os yw'r llywodraeth i wireddu y weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr. Mae hefyd yn berthnasol i sicrhau'r safon gorau addysgu a dysgu ieithoedd o fewn y sector Cymraeg dwyieithog;
- creu is-adeiledd gynhwysfawr o ran cyfrwng ar draws Cymru i warantu argaeledd y gynhaliaeth broffesiynol fydd ei hangen i weithredu'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus ym mhob ysgol beth bynnag bo'r cyfrwng ac ar delerau hollol gyfartal o ran argaeledd, ansawdd a chost;
- diwygio'r prosesau atebolrwydd i sicrhau tegwch i'r sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gan gynnwys ystyried codi proffil datblygu medrau dwyieithog a thrawsieithol myfyrwyr a chydnabod y buddsoddiad cwricwlaidd i ddarparu dwy iaith graidd.

Fel y dwedwyd ar gychwyn yr erthygl hon, mae llawer o'r heriau sy'n wynebu timau arweinyddiaeth y sector cyfrwng Cymraeg a dwyieithog hefyd yn wynebu ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Ond, wedi dweud hynny, mae angen gwneud yn echblyg y gwahaniaethau, a all fod yn rhai arwyddocaol, a'r modd y maent yn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Cymru.

## *Nodyn*

[1] Dyma ddiffiniadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd (hydref 2007):

Cyfrwng Cymraeg – addysgir pob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl.

Categori 2A – addysgir o leiaf 80 y cant o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl.

Categori 2B – addysgir o leiaf 80 y cant o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.



07 CYDAG WJE 20/2.indd 155 23/10/2018 09:27

Categori 2C – addysgir 50–79 y cant o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Categori 2CH – addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall.

## *Cyfeiriadau*


Donaldson G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Estyn (2016). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014–2015.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2017). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2015–2016.* Caerdydd: Estyn.

Evans, H. (2012). *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Humphreys, G. E. ac eraill (1973). *Rhydfelen: Y Deng Mlynedd Cyntaf.* Llandysul: Gwasg Gomer, t. 24.

Humphreys, Gwilym E. (2000). *Heyrn yn y Tân*. Aberystwyth: Gwasg Pantycelyn, t. 79.

Llywodraeth Cymru (2007). *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.




07 CYDAG WJE 20/2.indd 156 23/10/2018 09:27